# Y DDOLEN

Rhifyn 458 | Papur Bro Ystwyth ac Wyre | Ebrill 2020 60c

## Cadeiriau'r Beirdd



Yn y llun gwelir Aled Evans, Trisant yn dal cadair Swyddffynnon 2020 ar y dde, a chadair enillodd ei fam ym 1977 ar y chwith. Lluniwyd cadair 2020 gan Jeff Jones, Llanafan a chadair 1977 gan Enoc Lloyd. Llongyfarchiadau Aled.




Gina Davies, enillydd Cadair Ysgol Llanfarian am ei cherdd 'Hunllef'.

## Aelod y Flwyddyn




Llongyfarchiadau i Elin Rattray, CFfI Trisant, sef Aelod Iau Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru eleni.

## Cofiwch Dryweryn




Yn y llun mae: Elfed Wyn Jones, Nathan Goss, Dilys Davies, Cllr Rowland Rees-Evans, Christine Evans (Clerc y Cyngor Cymuned), Enfys Evans (Y Ddolen), Anwen James (Pennaeth Ysgol Gynradd Myfenydd) yn ogystal â disgybl lleol a'i fam. Gweler adroddiad llawn ar dudalen 10.

RHIF 458 EBRILL 2020
SEFYDLWYD MEDI 1978

y.ddolen@gmail.com

Llywydd
**Mair Hughes**, Greenmeadow, Trefenter (01974 272612)

Cadeirydd
**Gethin Rhys**, Gelli Aur, Cwrt y Cadno, Llanilar (01974 241062)

Is-Gadeirydd
**Andrew Hawke**, Collen, Cwrt y Cadno, Llanilar (01974 241745)

Panel Golygyddol
Elin ap Hywel
Angharad Evans
Enfys Evans
Andrew Hawke
Mair Hughes
Elen Lewis
Edgar Morgan
Eilian Rosser-Lloyd
Hywel Llyr Jenkins
Gethin Rhys

Teipyddion
**Siân Evans**, Ger-y-llan, Llanddeiniol SY23 5DT
**Sandra Jenkins**, Pant yr ŵyn, Trefenter SY23 4HU (01974 272261)

Ysgrifennydd
**Rina Tandy**, Brynawel, Trefenter, Aberystwyth SY23 4HJ (01974 272131)

Trysorydd/Tanysgrifio
**Rhian Thomas**, 20 Crugyn Dimai, Rhydyfelin SY23 4PR (01970 611691)

Swyddog Hysbysebion
**Wil Davies**, Porth Penrhyn, Capel Seion SY23 4EE (01970 880495)

Trefnydd Cyfeillion Y Ddolen
**Eirwyn Evans**, Hafan, Llanddeiniol SY23 5DT (01974 202287)

**Cysodwyd gan**: Elgan Griffiths
**Golygyddion y mis**: Gethin Rhys, Hywel Llŷr Jenkins ac Andrew Hawke'
**Y RHIFYN NESAF**:
**Dyddiad cau ar gyfer deunydd**: 15 Ebrill
**Yn y siopau**: 25 Ebrill

Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
CYMRAEG

Noddir Y DDOLEN gan Gyngor Sir Ceredigion

# Dyddiadur

**Rihyrsals a Chymanfa Dosbarth Tabor wedi'i chanslo am eleni, oherwydd y Feirws Corona.**

Derbyniwyd cadarnhad gan bod y digwyddiadau canlynol wedi ei gohirio oherwydd y Feirws. Nid ydym wedi cynnwys unrhyw ddigwyddiadau na gwibdeithiau yn y dyddiadur ar gyfer Ebrill a Mai, gan gymryd bod pob un ohonynt wedi eu gohirio, yn y gobaith y daw haul ar fryn ac y gallwn ailafael yn ein gweithgarwch cymunedol erbyn canol haf.

**Mawrth**
30 Merched y Wawr Bro Ilar – 'O Ben-y-garn i Vancouver' gyda Iestyn a Marian Beech Hughes. GOHIRIWYD

**Ebrill**
24 Noson gwis yn Ysgoldy Goch, Cwmystwyth am 7.00yh. GOHIRIWYD

**Mai**
10 Cyngerdd Yr Hafod 2020, yn Eglwys Newydd Hafod am 5.00yp. GOHIRIWYD
16 Bore Coffi yn Ysgoldy Goch, Cwmystwyth am 10yb. GOHIRIWYD
19 Bingo yng Nghanolfan yr Hen Ysgol, Llanilar am 7.30yh. Yr elw tuag at y Ganolfan. GOHIRIWYD

**Mehefin**
16 Cymdeithas Flodau Aberystwyth a'r Cylch yn dathlu 55 mlynedd. Te prynhawn yng Ngwesty Nanteos. Cysylltwch â Donald Morgan am ragor o fanylion i'r dathliad arbennig yma ar 01974 202233.
20 Barbeciw Haf Ysgoldy Goch Cwmystwyth am 4yp.

**Medi**
5 Ffair Hydref a Bore Coffi yn Ysgoldy Goch, Cwmystyth am 10yb.

**Tachwedd**
28 Ffair Nadolig Ysgoldy Goch, Cwmstwyth am 10yb.

# Diolch

Cyngor Bro Trawscoed **£150**
Cyngor Cymuned Llangwyryfron **£150**
Cyngor Cymuned Llanfarian **£100**
Cyfeillion Y Ddolen **£1,000**

# Cyfeillion y Ddolen

Mawrth 2020

| | |
|---|---|
| £20 | Cyfaill o Lanilar |
| £20 | Cyfaill o Bonterwyd |
| £10 | Clwb yr Henoed d/o Canolfan y Gymdeithas Llanilar |
| £10 | Cyfaill o Lanilar |
| £10 | Mr a Mrs H Jenkins, 11 Cwm Aur, Llanilar |
| £10 | Mrs J Morgan, Brynmad, Llanfarian |
| £10 | Mrs Kath Evans, Brynderi, Llanfarian |
| £10 | Morfydd Benjamin, Bryn Eithin, Llanrhystud |
| £8 | Mrs Morfudd Rattray, Bryngibdda, Llanfihangel y Creuddyn |
| £8 | Elin Calan Jones, Penbryn Mawr, Trefenter |
| £8 | Dr C Lloyd Morgan, Rhos Fach, Brynafan, Llanafan |
| £8 | Cyfaill o Lanilar |

# Golygyddol

Wrth baratoi'r rhifyn hwn mae'n bosibl na fydd modd dosbarthu drwy'r siopau arferol wrth i rai ohonynt orfod cau fel rhan o'r ymdrech i atal lledaeniad y Feirws Corona. Mae'r panel golygyddol yn hynod ddiolchgar i'n holl gyfranwyr am eu cefnogaeth o dan amgylchiadau anodd a gofidus, a'r un modd Elgan ein dylunydd a chyfeillion y Lolfa.

Rydym am fentro nodi dyddiad cau rhifyn Mai, a'n gobaith yw parhau i wasanaethu'r broydd hyn drwy'r cyfnod ansicr sydd o'n blaen. Mae'n bosib mai cyhoeddiad electronig yn unig fydd hwn, ond fe wnawn ein gorau i'w ddosbarthu mor eang â phosib. Os ydych yn dymuno derbyn pdf drwy e-bost, anfonwch neges at y.ddolen@gmail.com

Bydd rhifyn Mai hefyd yn ddiwedd cyfnod wrth i un o'n 'hoelion wyth' ymddeol fel gohebydd Llanilar. Diolch o galon i chi Rowland, ac i Mair, am eich cyfraniad enfawr i'r Ddolen dros y blynyddoedd. Anfonwn ein cyfarchion atoch gan ddymuno pob bendith i'r dyfodol.

*Trefnwyr Angladdau*
*C.T. Evans*
Perchnogion Gwyn & Janet Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn
Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas
Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nôs
01970 820 013 gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Cyhoeddir Y DDOLEN yn fisol gan Gymdeithas Y DDOLEN gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Argraffwyd gan Y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion. Cyfeirir pob gohebiaeth at yr Ysgrifennydd. Ni ellir gwarantu cynnwys unrhyw ddeunydd a anfonir i'w gyhoeddi yn Y DDOLEN na derbyn cyfrifoldeb am ei ddychwelyd.

## Neges gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Gyfeillion,
Gallaf sicrhau pobl Ceredigion bod Grŵp Rheoli Aur COVID-19 Cyngor Sir Ceredigion wedi ei sefydlu ac yn gwneud gwaith hanfodol i baratoi'r sir i fynd i'r afael â'r Coronafeirws. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i'w weithwyr, i bawb sy'n dod i gysylltiad â ni ac i chi bobl Ceredigion yn gyffredinol. Mae'r staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa wrth iddi ddatblygu, yna byddant yn cysylltu â'r defnyddwyr gwasanaeth perthnasol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a bydd yn dilyn unrhyw ganllawiau a ddaw oddi wrthynt. Os bydd cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru yn newid, bydd y Cyngor yn dilyn y cyngor ac yn cymryd y camau gweithredu priodol.

Does dim dwywaith y bydd y Coronafeirws yn effeithio arnom ni gyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Fe ddylech gadw golwg ar gyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru bob dydd ac os oes gennych chi unrhyw symptomau, fe ddylech hunan-ynysu am 14 diwrnod.

Mae'n braf gweld bod ysbryd cymunedol Ceredigion yn dod i'r amlwg ar adeg fel hyn gan fod sawl grwp lleol yn cael ei sefydlu i ofalu bod pobl sydd yn gorfod hunan ynysu yn cael yr help mae nhw angen i gael bwyd a meddyginiaeth angenrheidiol. Diolch o galon iddynt i gyd.

Cadwch yn ddiogel a chofiwch y gallwch chi gysylltu a ni trwy Clic trwy'r gwefan www.ceredigion.gov.uk, ar ebost clic@ceredigion.gov.uk neu ar y ffôn 01545 570881.

Mae'r holl wybodaeth o Geredigion i'w weld yma: www.ceredigion.gov.uk/coronafeirws.

Mae'r holl wybodaeth a chyngor diweddaraf ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://phw.nhs.wales/coronavirus.

**Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion**

## Coronafeirws (COVID-19)

Bydd aros adre yn helpu i reoli'r feirws rhag lledaenu i'ch teulu ehangach, ffrindiau, y gymuned estynedig, a'r rheini sydd fwyaf bregus.

Mae angen i ni weithredu NAWR er mwyn achub bywydau.

Diogelwch eich hun, eraill, a'r GIG.

ARHOSWCH ADRE.

Cadwch hyd braich i leddfu'r baich.

www.ceredigion.gov.uk/coronafeirws

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Cylch Cinio

Prifweithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Pedr ap Llwyd oedd gŵr gwâdd y Cylch Cinio yn ein cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty'r Richmond.

Ar ddechrau ei anerchiad cyhoeddodd ei fod wedi penderfynu dod yn aelod o'r Cylch a chafodd hynny groeso twymgalon gan yr aelodau.

Rhoddodd i ni hanes ei deulu a'i fagwraeth. Roedd ei hen dad-cu yn ficer ar eglwys enwog St Michael's-in-the-Field yn Sgwâr Traffalgar yn Llundain ond fe brofodd y teulu rwystrau ac anawsterau mawr a chymhleth o dristwch a thlodi. Bu bywyd yn anodd i'r teulu am sawl cenhedlaeth. Cawsom bictiwr dadlennol a gonest o'r cyfnod a arweiniodd iddo gael anhawster fel person o gefndir tlawd a difreintiedig i gael ei dderbyn i mewn i gymdeithas Gymreig y cyfnod. Brodor o Shoreditsh, Llundain oedd ei dad a'i fam o Benrhyndeudraeth ac yno yng Ngwynedd y cafodd ei fagu yn ôl ei ddisgrifiad ei hun, mewn 'cartref di-lyfr'. Cyfeiriodd at y llyfr cyntaf iddo ei brynu a hynny am bris da yn Ffair y Blaid ym Mhenrhydeudraeth ac nid rhyfedd mai'r Bywgraffiadur oedd y llyfr hwnnw. Cyfeiriodd at gyfnod hir o salwch meddwl a ddioddefodd a llawer o hynny yn deillio o gymlethdodau ac amgylchiadau ei fagwraeth ac eglurodd bod y cyflwr hwnnw wedi golygu triniaethau ond ei fod bellach wedi ei reoli.

Dechreuodd ar ei yrfa yn y banc yn y Bermo a Phwllheli ac er iddo gael cynnig mynd i ddilyn cwrs yng ngholeg y banc yn Llundain penderfynodd newid cyfeiriad. Aeth yn fyfyriwr i Goleg Harlech ac yna ymlaen i Brifysgol Gogledd Cymru Bangor lle derbyniodd radd BA yn y Gymraeg a gradd MA mewn hanes. Er ei fod mewn llinach anrhydeddus iawn yn ei swydd fel Pennaeth y Llyfrgell Genedlaethol mae ei weledigaeth o safbwynt y swydd o reidrwydd yn wahanol. Soniodd gyda balchder mawr am lwyddiant y datblygiadau mawr yn y Llyfrgell yn enwedig o safbwynt digideiddio a datblygu archif yn enwedig deunydd radio a theledu a darparu ar gyfer twristiaeth diwylliannol. Dywedodd mai gwaith y Llyfrgell yw creu, cadw a rhannu gwybodaeth ac er bod yna wasanaethau gwerthfawr iawn i academyddion pwysleisiodd bod y casgliadau yn perthyn i bobol Cymru ac mae am barhau gyda'r broses o sicrhau bod gwasanaethau'r Llyfrgell yno i bawb o bob cefndir.

Cyfeiriodd at un prosiect mae'n awyddus iawn i'w gyflawni yw ceisio dod i hyd i Goron Arthur a Chroes Naid a'u dychwelyd i Gymru. Mae'r ddau yn greiriau cysegredig y genedl Gymreig a gafodd eu cipio gan Edward 1 a'r sefydliad Seisnig adeg cwymp Llywelyn yn 1282. Ceir sawl damcaniaeth yn eu cylch ond cred rhai bod Coron Arthur wedi ei doddi er mwyn ei ail ddefnyddio'r aur Cymreig at ddefnydd teulu brenhinol Lloegr ond mae eraill yn dadlau bod y Groes yn dal ar gadw yn Lloegr.

Diolchwyd i'r siaradwr gan yr Is-Gadeirydd John Williams a hynny yn ei ddull dihafal ei hun a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd ac yn enwedig gyda'r ymgais i sicrhau bod trysorau'r genedl yn cael eu dychwelyd i'w priod le yma yng Nghymru. Enillydd y raffl oedd Lewis Owen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd Sion Griffiths at nifer o'r aelodau gan gynnwys Dr Richard Edwards sydd wedi bod dan driniaeth yn ddiweddar, John Lewis ar ddod yn dad-cu a Illtyd Griffiths sy'n pysgota yn yr Ariannin. Dymunwyd gwellhad buan i John Harries sydd wedi cael damwain go arw wrth sgio ar y piste a chroesawyd Aled Morgan (y bwtshiwr) fel aelod newydd o'r Cylch. Eglurodd Wynne Melville Jones am y bwriad fydd dathlu mewn achlysur arbennig ar Faes Eisteddfod Ceredigion 2020 mai'r Cylch Cinio sydd yn rhoi'r gadair yn Eisteddfod Fawr Tregaron ym mis Awst. Mae'r gadair o waith un aelodau'r Cylch, cyn athro gwaith coed Ysgol Penweddig Rees Thomas, yn dod yn ei blaen yn hwylus.

Y DDOLEN
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Llangwyryfon

Gohebydd: Mary Williams, Pant yr Haf (01974 241256) a Delyth Lewis, Nant yr Efail (01974 241737)

**Cymdeithas Tabor**
Daeth y tymor i ben ar ôl y gaeaf gyda'r Cinio Blynyddol, a gynhaliwyd eleni yn y White Swan yn Llanon. Roedd y bwyd wedi ei ddewis ymlaen llaw a chyn gynted ag yr oedd pawb wedi ymgynnull ac wedi eistedd, roedd y platiau ar y bwrdd. Cafwyd gwasanaeth canmoladwy iawn wedi ei weini'n serchog a digon o lysiau o bob math. Ein gwraig wadd eleni oedd Beti Griffiths, Llanilar. Dim ond crybwyll yr enw ac fe wyddech yn syth eich bod yn mynd i wrando ar anerchiad o safon. Ac felly y bu. Er i ni glywed Beti'n siarad nifer o weithiau o'r blaen mae ganddi bob amser rywbeth newydd a diddorol i'w gynnig. Mae ei stôr o straeon am blant yr ysgol a'i chof am ddarnau o farddoniaeth yn ddihysbydd. Mae ei chymeriad hawddgar yn amlwg yn ei straeon yn gymysg â'i synnwyr digrifwch. Diolchwyd i Beti gan Ifor Morgan a diolchwyd i'r Ysgrifennydd a'r Trysorydd am eu gwaith, a'r Llywydd am ei phresenoldeb cyson, gydol y flwyddyn ac am ei chyfraniad, gan y Cadeirydd. Rhoddwyd raffl gan Eira Hopkins ac fe'i enillwyd gan Beti Griffiths. Aed ymlaen i ddewis swyddogion ar gyfer y tymor nesaf – Llywydd – Geraint Lewis; Cadeirydd – Morris Hopkins; Is-Gadeirydd – Valerie Tawy; Ysgrifenyddes – Sioned Hopkins; Is-ysgrifenyddes – Carol Tandy; Trysorydd – Islwyn Jones yn parhau.

**Merched y Wawr**
Ar noson ddigon oer a gwlyb a gwyntog fe'n cynheswyd gan anerchiad ac atgofion y gŵr gwadd sef Iestyn Leyshon, un o bartneriaid cwmni Lloyd Herbert and Jones. Roedd ei bresenoldeb yn amlwg cyn gynted ag y daeth drwy'r drws. Fe'i cyflwynwyd ef gan Carys Davies, a ffwrdd â hi oedd hi wedyn. Fe siaradodd yn ddi-stop heb ddarn o bapur, a gwên ar ei wyneb drwy'r amser. Roedd y llif geiriau yn byrlymu o'i enau yn dwyn i gôf Afon Beidiog ar ôl glaw trwm. Clywsom am droeon ei yrfa cyn iddo setlo i mewn i'w swydd bresennol ac am rai o'r bobl hynod a diddorol a gyfarfu ar hyd y ffordd. Cafodd pawb gyfle i edrych ar y 'drone' sydd ganddo at ei waith er mwyn medru asesu toeau fyddai allan o gyrraedd a pharatoi fideo o dai a ffermydd anghysbell ar gyfer prynwyr posibl. Dysgom lawer am waith arwerthwr a daeth rhai cyfrinachau i'r amlwg! Diolchwyd iddo gan Glenys Morris a hi a Carys gyfrannodd raffl. Fe'u henillwyd gan Glenys Morris a Myfanwy Williams.



Cast drama CFfI Llangwyryfon.

**Clwb Croeso**
Aeth criw bach o'r selogion am ginio Nadolig hwyr i Glwb Golff Penrhos. Roedd pawb wedi cael dewis ei fwyd ymlaen llaw, felly ni fu raid aros yn hir.

Nid yw'n arferiad i gael gŵr neu wraig wadd yn y cinio hwn ond roedd digon o siarad o amgylch y bwrdd. Diolchwyd i Rhiannon am wneud y trefniadau eleni eto. Trafodwyd y cyfarfod nesaf a bydd raid cadw mewn cysylltiad pan fydd trefniant wedi ei gwblhau a phenderfyniad ynglŷn â phriodoldeb cynnal cyfarfod yn wyneb y sefyllfa iechyd bresennol.

**Clwb Garddio**
Mis Mawrth yw mis y cwis bob blwyddyn, a bob blwyddyn yn ddi-ffael mae Ifor Morgan yn llwyddo i'n llorio gyda chwis newydd (anodd) arall. Rhannwyd yn dri thîm, dau o bedwar aelod ac un o bump aelod. Does dim raid dweud mai'r tîm o bump enillodd a'r lleill ohonom yn taeru mai'r un pen ychwanegol wnaeth y gwahaniaeth mewn cystadleuaeth agos. Yr enillwyr oedd Matthew ac Anna Baker, Gerri a Colin Orton, a Brenda Mead. Diolchwyd i Ifor am ei barodrwydd eleni eto ac yna mwynhawyd rhannu'r danteithion a baratowyd gan yr aelodau. Yn wyneb y sefyllfa bresennol ynglŷn â phryderon iechyd penderfynwyd na fyddai'r Clwb yn cyfarfod y mis nesaf.

**Adroddiad CFfI Llangwyryfon**
Ar ddechrau mis Rhagfyr bu rhai o'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Sir. Daeth llwyddiant i'r clwb wrth i Elen Rebecca gipio'r wobr 1af dan 26ain am y cadeirydd gorau. Pob lwc i ti Elen yn cynrychioli'r sir ar lefel Cymru. Yna, fis Ionawr, bu'r clwb yn cystadlu yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg. Unwaith eto daeth llwyddiant i'r clwb wrth i Dyfrig Williams gipio'r 3ydd safle fel cadeirydd dan 26ain, a thîm Llangwyryfon A hefyd yn cipio'r drydydd safle yn y gystadleuaeth seiat holi dan 26ain. Yn rhan o'r tîm oedd Eiry Williams, Elin Calan Jones, Elen Rebecca a Dyfrig Williams. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cymryd rhan yn y cystadlu.

Bu'r clwb allan yn canu carolau adeg y Nadolig, gan godi £847 ar gyfer yr elusen 'Blood Bikes'. Cafwyd noson hwyliog yn y 'Goeden Nadolig' y clwb gyda Sion Corn yn ymuno yn yr hwyl. Llywydd y noson oedd Glesni Davies, Esgair Llyn. Diolch i bawb.

Cynhaliwyd cwrdd dechrau'r flwyddyn y clwb yn y neuadd ar ddechrau Ionawr yng ngofal Terry Davies. Diolch i bawb wnaeth fynychu. Mae aelodau'r clwb wedi bod yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys nofio yn Aberaeron, noson cwis gyda Ifor a noson gemau yn y neuadd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Dramâu y Sir ar ddiwedd Chwefror yn Theatr Felinfach, gyda 15 o glybiau yn cymryd rhan. Gweler y llun o gast y ddrama a gipiodd yr ail safle ar ddiwedd y cystadlu. Yn rhan o'r cast oedd Rhodri Griffiths, Elin Calan, Elen Rebeca, Dyfrig Williams, Dylan Morris, Huw Evans ac Eiry Williams. Llongyfarchiadau hefyd i Huw Evans am gipio yr 2il safle fel yr actor gorau dan 26ain ac i Elin Calan Jones am gipio'r ail safle fel yr actores orau dan 26ain. Sam Jones, Tregaron oedd awdur y ddrama, a chipiwyd yr 2il wobr am y sgript orau. Daeth y clwb hefyd yn 3ydd am y cynhyrchiad gorau. Diolch i bawb a fu ynghlwm wrth helpu a diolch i bawb a ddaeth i weld y ddrama yn ein cyngerdd. Gwyneth Haf Davies, Maes yr Haf, Blaenpennal, oedd llywydd ein cyngerdd dramâu, a diolch yn fawr iddi am ei rhodd haelionus.

**Cyngor Cymuned**
Materion a drafodwyd yn y Cyngor Cymuned yn ystod y ddau fis diwethaf:

Gwybodaeth wrth y Cyngor Sir eu bod yn mynd i baentio ARAF/SLOW ar yr hewl cyn dod at yr ysgol, o ddau gyfeiriad, pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Y clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir am nad oes arwydd o unrhyw fath ar dro'r Esgair erbyn hyn.

Dim gwrthwynebiad i gais cynllunio Rhandir Hen.

Derbyniwyd cytundeb ffurfiol oddi wrth fferm wynt edf energy (Llangwyryfon Windfarm Limited) a'i arwyddo gan bawb oedd yn bresennol.

Astudiwyd yr Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol a gwelwyd ein bod yn cydymffurfio â'r rhain.

Cadw'ch Gymru'n Daclus yn cynnig pecyn garddio 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' i bob Cyngor. Awgrymwyd cysylltu â'r Ysgol a'r Clwb Garddio cyn mynd ymlaen i archebu un.

Derbyniodd y Cadeirydd wahoddiad wrth Glwb Cinio Tregaron i agor eu te blynyddol.

Ystyriwyd y gofynion ariannol posibl cyn diwedd y flwyddyn ariannol a phenderfynu cadw'r praesept yr un fath â llynedd.

Dosbarthwyd £800 o gyllid y Cyngor i sefydliadau a wnaeth gais am gyfraniad yn unol â rheolau S137.

Allan o'r Gronfa Gymunedol, sef yn arian o dderbynnir o'r melinau gwynt, rhannwyd £7500 rhwng Cymdeithasau a Sefydliadau lleol.

Yn unol ag argymhellion y Llywodraeth ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Mawrth.

**Sefydliad y Merched**
Ar 4 Chwefror croesawodd ein llywydd Ivor Thomas atom unwaith

eto, y tro yma i ddangos ffilm ar Patagonia. Hanes teulu o Patagonia yn dod nôl i Gymru i edrych am eu gwreiddiau. Gorffennwyd gyda bwffe bach a thynnwyd y raffl.

Aethpwyd allan i Westy Richmond ar 25 Chwefror am ein cawl blynyddol. Noson hyfryd i ymlacio a mwynhau'r bwyd. Diolch i Mair am drefnu.

Rebecca Kirby o 'Citizens Advice Bureau' oedd ein gwraig wadd ar 3 Mawrth, yn esbonio'r cyfleusterau sydd ar gael i rywrai sydd mewn angen. Er enghraifft, addasu tai i'r henoed wrth roi rheiliau gafael a rampiau bach wrth ddod i mewn i'r tŷ, neu lifft i fyny'r grisiau. Cynghori i beidio ymateb i alwadau ffôn poendod sydd yn gofyn am fanylion personol. Ar 11 Mawrth cafwyd gwahoddiad gan SYM Llanilar i ymuno â hwy i weld Siop Glanmor, Aberaeron yn dangos ei ffasiwn, sef dillad, bagiau, sgarffiau a gemwaith. Cafwyd cyfle i brynu, ac roedd rhywbeth ar gael i blesio pawb.

**Cyfeillion y Ddolen**

Gair bach i atgoffa'r ffyddloniaid ei bod yn amser casglu cyfraniadau Cyfeillion y Ddolen. Bydd un o'r gohebyddion lleol yn barod iawn i dderbyn eich £5 cyn gynted ag y gallwch.

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangwyryfon**

*Cogurdd*

Yn dilyn ei llwyddiant yn ennill yn y rownd gyntaf, mentrodd Jemma i gampws Ysgol Bro Teifi ganol Chwefror ar gyfer y gystadleuaeth ranbarthol. Ar gyfer yr ail rownd roedd yn rhaid iddi wneud 'stir fry' – tipyn o dasg i blentyn oedran ysgol gynradd. Roedd nifer fawr yn cystadlu – gwnaeth Jemma yn arbennig o dda gan fwynhau y profiad yn fawr iawn !

*Gŵyl Ddewi*

Bu'r plant yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi ar 2 Mawrth drwy wisgo eu dillad Cymreig, yn ogystal â gwneud amrywiol weithgareddau yn yr ysgol megis canu caneuon, dawnsio gwerin, bwyta pice bach a gwneud gwaith celf a chrefft. Y Sadwrn cyn hynny ymunodd criw o blant a'u rhieni â Phared Gwyl Ddewi Aberystwyth – mwynhaodd pawb y profiad unwaith eto eleni ... er waethaf y glaw diflas !

*Arddangosfa Wyddoniaeth*

Bu plant Cyfnod Allweddol 2 mewn Arddangosfa Wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ganol mis Mawrth – bu'r plant wrthi yn ddiwyd yn gwneud amrywiol weithgareddau diddorol ac ymarferol yn ystod y bore gan fwynhau yn fawr.




Blwyddyn 1 yn eu gwisgoedd ar ddiwrnod y llyfr.



Diwrnod y Llyfr.



Disgyblion Llangwyryfon yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi.



Y plant yn gwneud gweithgareddau Cymreig yng Nghlwb yr Urdd.

*Diwrnod y Llyfr*

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar 5 Mawrth drwy wisgo fel cymeriad o lyfr – roedd pawb wedi gwneud ymdrech arbennig iawn ar gyfer y diwrnod gan ddod mewn amrywiaeth o wisgoedd – o Gangsta Granny David Walliams i Harry Potter i dywysogesau a chwaraewyr rygbi!

*Eisteddfodau'r Urdd*

Mentrodd ambell ddisgybl i ragbrofion Eisteddfod Gylch yr Urdd ym mis Mawrth. Yn yr Eisteddfod Gylch y diwrnod canlynol cafodd y parti unsain yr ail wobr. Bu criw o blant yn cystadlu yn y gystadleuaeth parti llefaru hefyd. Llongyfarchiadau i chi gyd am eich holl waith cyn ac yn ystod yr Eisteddfod a diolch yn fawr i Miss Sian Thomas am roi o'i hamser i ddod i hyfforddi y parti llefaru.

*Gweithdai Sbectrwm*

Mae Annie Robbins wedi bod yn ymweld a'r ysgol yn ystod mis Mawrth i gynnal gweithdai gyda'r dau ddosbarth ar gyfeillgarwch a pherthnasau iach a hapus – mae'r plant yn mwynhau y gweithgaredddau amrywiol a'r cyfle i drafod pethau fel eu teimladau ag yn y blaen.

*Clwb yr Urdd*

Cyfarfu'r Urdd ddwy waith ym mis Mawrth – bu'r plant yn gwneud gweithgareddau Cymraeg ac yna yn gwneud gwaith crefft ar gyfer Sul y Mamau.

*Llysgenhadon Efydd*

Mynychodd Charlie a Jac diwrnod arall o hyfforddiant yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Lysgenhadon Efydd yr ysgol – mae'r ddau yn cynnal clybiau chwaraeon i ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ystod amserau cinio.

*Clwb Garddio*

Bu criw yr Hafod yn cynorthwyo Brian a Maureen i drawsblannu bylbiau o botiau i'r darn bach o dir ger Siop y Pentref – mae'r plant yn wir fwynhau y cyfleoedd yma ac yn falch cael bod yn ran o'r gwaith i harddu eu pentref: ymddiheuriadau am beidio cyfeirio yn y rhifyn diwethaf at hyn.

*Rhaglen 'Heno'*

Danfonwyd llun o blant yr ysgol yn eu dillad Gŵyl Ddewi ac y neu gwisgoedd ar Ddiwrnod y Llyfr i'w dangos ar raglen HENO yr wythnos gyntaf ym mis Mawrth – ond nid dyna'r ymddangosiad wnaeth plant o Langwyryfon ar 'Heno' yr wythnos honno. Darlledwyd eitem ar y rhaglen o Glwb Rygbi Aberaeron a hyfryd oedd gweld cip o Janet a Malen unwaith eto ar y sgrin fach.

*Llongyfarchiadau*

Bu'r ysgol yn brysur yn gwneud artefact allan o botiau iogwrt ar gyfer cystadleuaeth ailgylchu cwmni Llaeth y Llan yn ystod mis Chwefror gan greu robot (hyn

## parhad ... Llangwyryfon

yn cydfynd â thema'r tymor) ac ar ddechrau mis Mawrth daeth y newyddion cyffrous iawn bod yr ysgol wedi dod yn y deg uchaf ac yn ennill gwobr o £1000 – llongyfarchiadau mawr iawn i chi blantos – maent eisioes wedi sôn eu bod am wario yr arian ar ddodrefn i'r ardal allanol.

*Croeso*

Croesawn Elin Mair atom bob prynhawn Llun i wneud gwaith gwirfoddol gyda y ddau ddosbarth fel rhan o'i chwrs Bagloriaeth Cymraeg yn y chweched dosbarth ym Mhenweddig. Rydym yn parhau i fwynhau cwmni'r Parch Julian Smith, Llanrhystud yn yr ysgol bob yn ail ddydd Gwener. Mae'r plant yn mwynhau ymweliadau Mr Smith a'i negeseuon diddorol ac amserol – a'r canu hefyd!

*Pen blwydd Hapus*

Pen blwydd Mary Williams Pant yr Haf neu Anti Mary i ni yn yr ysgol ar ei phenblwydd yn 90 oed ddiwedd y mis – mae Anti Mary wedi bod yn ffrind triw iawn i ni yn yr ysgol ar hyd y blynyddoedd a dymunwn bob dymuniad da iddi ar ei diwrnod arbennig.



Rhai o blant yr ysgol yn y Pared Gŵyl Ddewi.

*Diolch*

Dymuna'r staff a'r disgyblion estyn ein diolch i Gyngor Cymuned Llangwyryfon am ei cyfraniad ariannol hael iawn unwaith eto eleni i'r ysgol. Yr un yw ein diolch i Gronfa Goffa Meilyr Llwyd am y cyfraniad hefyd i'r ysgol – rydym yn gwerthfawrogi eich bod fel teulu wedi meddwl amdanom a'r ysgol lle treuliodd Meilyr lawer i flwyddyn hapus. Bydd yr arian yn cael ei wario ar brynu mainc neu fwrdd picnic newydd i'r ardal allanol.

*I Gloi...*

Wrth ysgrifennu'r pwt yma i'r Ddolen roedd cymuned yr ysgol, fel nifer o sefydliadau eraill yn wynebu cyfnod estynedig ar gau o ganlyniad i'r Coronafeirws sydd yn amlygu ei hun ar draws y wlad. Mae'n gyfnod ansicr a gofidus i bawb – sefyllfa na phrofwyd gan lawer i genhedlaeth o'r blaen ond hyderwn y byddwn yn ail gydio, fel eraill, yng ngweithgareddau'r ysgol mor fuan â phosib ac y bydd y plantos i'w gweld a'u clywed rhwng y muriau ac allan ar yr iard unwaith eto. Am y tro – cymerwch ofal bawb a chadwch yn ddiogel.



Y robot a ddaeth yn y deg uchaf yng nghystadleuaeth ailgylchu Llaeth y Llan.



# Garddio

gyda Gwyn Tyncoed, Llanilar
(01974 261361)

Wel dyma ni eto ar drothwy tymor arall o arddio, ond cyn mentro i'r ardd rhaid i'r tywydd gynhesu ychydig a gobeithio hefyd y bydd y glaw diddiwedd yn cilio am eleni. Er bod yr eira a'r rhew wedi cadw draw yn ystod y gaeaf yn y rhan yma o'r wlad, mae hyn wedi rhoi rhyddid i'r pryfed dinistriol a all daro ar eich gardd ryw ffordd neu gilydd i luosogi a bydd hyn yn broblem wrth i'r tymor fynd yn ei flaen. Byddai rhew caled wedi lladd y rhain ymaith yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r rhew hefyd yn rhoi mantais i'r ardd i gysgu yn iawn ac yn puro'r pridd. Yn anffodus gwynt, glaw a llifogydd gafwyd eleni ac mae hyn wedi creu difrod i lawer ar hyd a lled y wlad.

Er dweud hyn oll, rhaid paratoi ar gyfer y tymor newydd. Y dasg gyntaf yw gwneud yn siŵr bod yr ardd yn rhydd o unrhyw ffwng a gellir rheoli hwn gyda *fungiside* cryf. Rwy'n defnyddio fformalin sy'n afresymol o gryf ac yn cymysgu hwn i un rhan o fformalin i chwech o ddŵr. Gellir gwneud y dasg hon ar ddiwrnod cymylog yn y mannau lle cawsoch broblem y llynedd. Hefyd gellir defnyddio hwn i ddiheintio'r Tŷ Gwydr ond byddwch yn ofalus mae'n eithriadol o gryf dan dô. Gellir gweithio ar yr ardd tua wythnos ar ôl cwblhau y dasg hon.

Ar ôl hyn, rhaid trin yr ardd a pharatoi ar gyfer plannu. Yn gyntaf oll rhaid meddwl am datw. Mae dros pum cant o wahanol fathau o datw ar y farchnad. Peidiwch oedi oherwydd maent yn gwerthu allan yn fuan iawn.

Ar gyfer y cnwd cynnar, rwy'n dewis *Winston, Rocket* a *Casablanca* sy'n cynhyrchu'n arbennig o dda ar ddaear gleiog. Math arall sy'n barod tua tair wythnos yn gynt na'r uchod yw'r *Swift*. Mae hon yn ffafriol iawn i ardd fechan gan nad yw'r gwrysg ddim ond yn tyfu tua troedfedd ac mae'n cropio'n ardderchog. Rwyf yn hau rhes neu ddwy o'r rhain ar gyfer cael cnwd cynnar.

I'r ail gynnar sydd rhan amlaf dwy i dair wythnos ar ôl y cynnar, rwy'n hau *Kestrel* a *Nadine* ar gyfer arddangos yn y sioeau; a *Charlotte* sy'n daten ar gyfer salad.

Ar gyfer y prif gnwd sy'n aeddfedu tua phythefnos ar ôl yr ail gynnar, rwy'n plannu *Picasso, Setanta, Cara* a'r *Sarpo Mira*. Mae rhain i gyd yn datw safonol. Nid yw *Setanta* a'r *Sarpo Mira* yn cael eu heffeithio gan y 'blight' ac mae *Picasso* a'r *Cara* yn perthyn i'w gilydd a drwyddi draw dylech gael cnwd da o'r prif gnwd o datw i'w storio dros dymor y gaeaf.

Peidiwch anghofio yr hen fathau sydd wedi ennill poblogrwydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd sef *Home Guard* – taten wych ar gyfer sglodion; *Kers Pink* – taten wen; *Desiree* – taten goch sy'n cropio'n drwm ond yn boblogaidd iawn yn yr oes yma. Felly mae digonedd o ddewis ond y peth pwysicaf yw eich bod yn dewis y math daten sy'n gweddu tirwedd eich gardd.

Hefyd mae'n bwysig i blannu eich shalots yn gynnar. Nid oes dim yn well na shalot ifanc i fwyta gyda'ch bara menyn yn gynnar yn y tymor. I greu rhai cynnar iawn, rwy'n hau y rhain mewn hambwrdd ddwfn yn y Tŷ Gwydr tua canol mis bach. Wedyn pan mae'r ardd yn barod rwy'n eu plannu allan a byddant yn para dros y rhan fwyaf o'r tymor. Mae'r shalot yn ddefnyddiol dros ben mewn salad. Gellir hau rhes fach o shibwns sy'n para hyd y gwanwyn cynnar. Ni wna'r rhew niwed i'r rhain. Cofiwch hefyd bod y winwns angen tymor hir i dyfu ac aeddfedu. Gellir plannu winwns mewn dwy ffordd:

(i) fel setiau – rhaid i'r rhain gael eu plannu ym mis Mawrth hyd wythnos gyntaf mis Ebrill. Plannwch mewn gwely wedi eu trin â hen wrtaith. Plannwch tua 5 modfedd oddi wrth ei gilydd

(ii) fel planhigion – rhaid hau hadau'r planhigion adeg Nadolig neu ychydig yn gynt a'u trawsblannu allan i'r ardd ddiwedd Mawrth i ddechrau mis Ebrill.

Dyna ddiwedd y planhigion am y tro ond yn anffodus nid diwedd y gwaith! Rhaid nawr mynd ati i docio eich rhosynnau. Fy nhasg nesaf yw tocio 300 o rosynnau. Tociwch nhw tua 4 modfedd o waelod y pridd. Torrwch ymaith hen goesau di-werth. Ymhen awr ar ôl tocio, cofiwch baentio pob cwt â phaent gwrth-ffwng sydd ar gael yn y canolfannau garddio. Hyn yn bwysig iawn rhag i'r ffwng sy'n dod gyda'r gwynt wneud niwed i'ch rhosynnau.

Digon am y tro – digon o waith i'w wneud – daliwch ati a phob bendith.

# Cronfa Goffa Meilyr Llwyd



Pan fu farw Meilyr, neu Mei fel yr adwaenid ef gan bawb, yn sydyn ac annisgwyl ar 21ain Medi 2019, fe fu'n sioc a siom aruthrol i'w deulu, ei gyd-weithwyr, ei gyfeillion a'i gydnabod mewn cynifer o gylchoedd. Gwelwyd colli ei bersonoliaeth hawddgar, hael a charedig a'i gymeriad llawen a direidus. Roedd Mei yn un yr oedd ei wybodaeth gyffredinol ac arbenigol yn rhyfeddol iawn a'i gof yn ddiarhebol.

Ym mhentref Llangwyryfon y magwyd Meilyr, yn Nhŷ'r Ysgol i ddechrau ac yna yn Ynyswen, ond er Rhagfyr 2008 roedd wedi byw yn un o dai Mencap ym Mhenparcau lle cafodd ofal arbennig iawn gan dîm o ofalwyr yno. Ac er Medi 1995 roedd wedi bod yn aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru lle'r oedd wrth ei fodd yn ei waith ac yng nghwmni ei gyd-weithwyr.

Ar adeg ei farwolaeth agorwyd **Cronfa Goffa** i Meilyr a fyddai ymhen amser i gael ei dosbarthu i sefydliadau ac elusennau oedd yn agos at ei galon. Erbyn dyddiad ei ben-blwydd yn niwedd Chwefror eleni roedd cyfanswm y Gronfa Goffa wedi cyrraedd y swm anrhyfeddus o £4,250 a dosbarthwyd y cyfan, mewn symiau amrywiol, rhwng y sefydliadau canlynol:

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Mencap Cymru, Clwb Gateway Aberystwyth, Clwb Peldroed Aberystwyth (sgwad anabl), Cronfa Goleudy Josh, Clwb Saethyddiaeth Aberystwyth, Clwb Nofio Cynhwysol Aberystwyth, ac Ysgol Gynradd Llangwyryfon.

Mae teulu agos Mei yn dymuno datgan eu gwerthfawrogiad o'r holl arwyddion o gydymdeimlad a charedigrwydd a gawsant, trwy wahanol gyfryngau, ar adeg eu profedigaeth lem ac yn dymuno diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at Gronfa Goffa Meilyr.


GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio, Chwynu a Dal Gwaddod

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion: 07792457816 / 01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com


## Llanafan

Gohebydd: Alwena Richards, Awel y Bryn (01974 261382)

**Merched y Wawr**
Cynhaliwyd ein Noson o Gawl a Chân blynyddol yn Neuadd Lisburne ar nos Sadwrn, 29 Chwefror. Roedd y neuadd wedi ei haddurno'n brydferth gyda Chennin Pedr a'r Ddraig Goch.

Estynnwyd croeso i bawb gan Rachel Jenkins ac yna mwynhaodd pawb gawl a tharten afal gyda hufen. Wedi i bawb orffen croesawyd y parti a ddaeth i'n diddori, sef grŵp 'Harmoni' – pedair o ferched dawnus gyda'u cyfeilydd. Cafwyd eitemau o safon uchel gan y merched a barn pawb oedd iddynt gael noson wrth eu bodd. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi eleni eto.

Er gwaetha'r glaw trwm a'r gwynt yn hyrddio, daeth criw da o'r aelodau i gyfarfod y gangen ar nos Lun, 9 Mawrth. Cafwyd adroddiad ar y Noson Gawl lwyddiannus a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne, nos Sadwrn, 29 Chwefror, er mwyn dathlu diwrnod ein Nawddsant, a nodwyd gyda balchder inni wneud ychydig o elw y tro hwn.

Croesawyd wedyn ein gŵr gwadd, sef Sion Griffiths, neu 'Sion y deintydd' fel y mae pawb yn ei adnabod. Mae Sion yn gyfarwydd iawn i bawb yn y gymdogaeth, ac yn gefnogwr brwd i fywyd Cymraeg yr ardal. Cawsom sgwrs hynod ddiddorol ganddo ar hanes deintyddiaeth, gyda llu o luniau'n dangos technegau deintyddol cynnar, gan esbonio'r cwbl mewn ffordd eglur ac agos atoch. Cafwyd ambell ebychiad o'r gynulleidfa pan ddangoswyd lluniau o benglogau o'r hen oesoedd a sôn am yr hen arfer o dynnu dannedd o gyrff y meirw er mwyn gwneud dannedd gosod! Bu Sion yn amyneddgar iawn wedyn yn ateb llu o gwestiynau ar y pwnc ond hefyd yn rhoi cyngor inni ar y ffordd orau i gadw'n dannedd yn iach. Parhaodd y drafodaeth frwd dros baned a darn o'r gacen hyfryd a wnaethpwyd gan Nia, ein Llywydd, ar ein cyfer. Gobeithio bod pawb wedi brwsio'u dannedd yn drylwyr cyn mynd i'r gwely!

**Y Neuadd**
Cafwyd noson o chwerthin iach yn y neuadd ar nos Iau, 12 Mawrth pan ddaeth aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc Trisant a Llangwyryfon atom i berfformio dramâu buont yn cystadlu arnynt mewn cystadleuaeth yn Felinfach rai wythnosau yn ôl.

Pleser oedd gweld y bobl ifanc hyn yn perfformio a diolch iddynt am roi o'u hamser a rhoddi noson o adloniant llwyr i ni. Croesawyd pawb gan Eirian Lloyd a throsglwyddodd yr awenau wedyn i Milwyn Davies a thalwyd y diolchiadau gan Doris Evans. Ar ddiwedd y noson croesawyd Sian Evans adref o Seland Newydd wedi iddi dreulio chwe mis yn y wlad honno.


*Siop Blodau'r Bedol Florist*

*ENILLYDD MEDAL AUR SIOE CHELSEA YN 2016*



Hen Efail, 1a Moelifor Terrace
Llanrhystud, Aberystwyth SY23 5AB
**blodaurbedol@aol.com**
**07763 282548 ~ 01974 202233**

- *Arddangoswr NAFAS cymwysedig*
- *Trefnydd blodau arbenigol ar gyfer priodasau*
- *Pob Achlysur Arbennig*
- *Angladdau*
- *Gweithdai Trefnu Blodau*
- *Cynigir Gwasanaeth Personol i ateb eich holl ofynion*
- *Gellir trefnu ymweliadau yn y cartref yn ystod profedigaeth i drafod blodeugedau*

ALED ELLIS

ARWERTHWYR . PRISWYR
ASIANTWYR TAI

16 Ffordd y Môr, Aberystwyth
**Rhif Ffôn** 01970 626160
**e-bost** sales@aledellis.com

# Cwmystwyth

**Ysgoldy Goch**

Bu cymdogion a ffrindiau yn mwynhau noson Cawl yn Ysgoldy Goch nos Wener 28 Chwefror i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolch i Helen Lewis, Dolchgenog am baratoi'r cawl blasus, ac i bawb am eu cymorth ar y noson yn paratoi a gweini te a cage bach. Diolch hefyd i bawb a fu yno ar y noson.

**Cinio Dydd Gŵyl Ddewi**

Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cwmystwyth a'r Cyffiniau ar ddydd Sul 8 Mawrth yn nhafarn yr Halfway yn Pisgah. Cafodd dros 30 ohonom wledd, nid yn unig o fwyd, ond o gerddoriaeth hefyd. Cawsom adloniant hyfryd gan Guto Lewis yn canu dwy gân Gymraeg ac un gân o'r Eidal i gyfeiliant ardderchog gan ei ewyrth.

**Atgofion Bore Oes: Prosiect 'Cofio'r Cwm'**

Ar nos Iau 27 Chwefror daeth gynulleidfa o hanner cant o bobl yr ardal i Ysgoldy Goch i wrando ar dri o 'blant y Cwm' yn siarad am eu hatgofion o fywyd yng Nghwmystwyth yn y gorffennol. Cawsom wledd o atgofion ar ystod eang iawn o bynciau gan Edgar Morgan, Brenda Evans a Brython Davies wrth iddynt gael eu holi gan Aled Evans, Cadeirydd Cymdeithas Cwmystwyth a'r Cyffiniau. Cynhaliwyd y noson fel rhan o brosiect 'Cofio'r Cwm' dan nawdd y Gymdeithas, Eglwys Yr Hafod, Capel Siloam a Chofnodion Cwmystwyth. Cafodd y gynulleidfa gyfle, hefyd, i edrych ar arddangosfa o luniau o'r Cwm a rhai o'i gymeriadau ynghyd â rhai eitemau hanesyddol eraill. Mae'r brosiect yn arbennig o ddiolchgar i Dafydd Morris-Jones am ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd o safon uchel iawn, i Keith Hicks ac Alun Jenkins am recordio'r noson gyfan ac i griw Ysgoldy Goch am ddarparu paned ar ôl y sgwrs.

**Dalier Sylw**

Bydd rhaid gohirio cyfarfod olaf rhaglen Cymdeithas Cwmystwyth a'r Cyffiniau, sef 'Ein Treftadaeth' oedd wedi ei drefnu ar gyfer nos Iau 26 Mawrth. Gobeithir ail-drefnu'r noson rywbryd yn ystod yr hydref.

Hefyd yn anffodus ni fydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei gynnal yn Ysgoldy Goch, yr Eglwys na'r Capel yn y dyfodol agos oherwydd sefyllfa'r coronafeirws Covid-19 sydd ym Mhrydain ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys Cyngerdd yr Hafod 2020, oedd i'w chynnal yn yr Eglwys ar 10 Mai.








Cofio'r Cwm

## Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau 20 Chwefror yn Neuadd Bentref Capel Bangor gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Roedd yna ymddiheiriadau oddi wrth un cynghorydd.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr fel rhai cywir. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn llythyrau o ddiolch am y rhoddion ariannol.

Roedd Cathryn Morgan, Swyddog Datblygu Chwarae i Sir Ceredigion wedi ei gwahodd i'r cyfarfod i rhoi cyngor ynglŷn â datblygu Parc Chwarae. Cafwyd trafodaeth ddiddorol a phenderfynwyd mai y cam nesaf oedd cynnal ymgynghoriad gyda rhieni a phlant. Awgrymwyd dyddiad 17 Ebrill; bydd mwy o fanylion i ddilyn.

Roedd tri cais cynllunio wedi dod at sylw y Cyngor sef, A200047 Ty Fosi, Pantycrug; A200089 Pengeulan, Cwmrheidol a A200062 Bwlch Nant yr Arian.

Derbyniwyd gwahoddiad oddiwrth Pentir Pumlumon i'r digwyddiad yn Nant yr Arian ar 27 Chwefror. Noder fod un sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun a diddordeb cysylltwch â'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion.

**P.T PRESERVATION Ltd**
Arbenigwr trin tamprwydd mewn welydd, pryfed mewn pren, pydredd pren a gosod clymau wal mewn welydd dwbl.
GWASANAETH CYMRAEG | CWMNI LLEOL
PETER TANDY
01974 272 310 | 07866 078 221

**Brodyr EVANS Bros**
PRIF FASNACHWYR
MASSEY FERGUSON YN NE, GORLLEWIN A CHANOLBARTH CYMRU
Cefnmabws,Llanrhystud: 01974 272 260
Crosshands: 01269 831 020
Machynlleth: 01654 703 440
Hwlffordd: 01437 762 736
www.brodyrevansbros.co.uk

**HUW GRIFFITH**
MASNACHWR COED TÂN
Hefyd gwasanaethau ffensio a thrin coed
ffôn: 01974 241529

**DEIAN REES**
Peintiwr ac Addurnwr
Glannant, Stryd y Capel
Tregaron SY25 6HA
01974 298 615
07900 174 699
(tecst yn unig)

**Lloyd Herbert & Jones**
Tir Fesurwyr Siartiedig
Arwerthwyr
a Stâd Fasnachwyr
10 Y Ffynnon Haearn
ABERYSTWYTH
Ffôn 01970 624328 neu 612559

**KANGALOOS**
Gwasanaeth Hurio Toiledau Symudol a Gwacáu 'Septic Tanc'
Cysylltwch â Iwan ar
01974831266 neu
07855364947

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth

# Trefenter

Wel, mae'n amser pryderus iawn i bawb dros y wlad ac yn wir dros y byd ar hyn o bryd. Mae gweithgareddau wedi cael eu canslo a'r rhan fwyaf o bobol yn ein cymunedau yn gorfod hunan ynysu. Dyma adeg mae gwir ystyr cymuned o dan brawf. Mae llawer o bobl ifanc yn fodlon helpu'r rhai sy'n ynysu oherwydd gwahanol amgylchiadau a diolch i'r rhai hynny sy'n barod i wneud hyn. Cymerwch ofal, daw eto haul ar fryn.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Ken, Edwina ac Elin Jones, Penbryn Mawr ar golli chwaer i Ken yn frawychus o sydyn sef Kathleen Meredith, Pontrhydyfendigaid. Cydymdeimlwn hefyd gyda John a Lynda Newman, Carreg y Ddoll ar farwolaeth mam John. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd yn eich galar a'ch colled.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau mawr i Llŷr Davies, Golygfa ar ennill tystysgrif Gwobr y Flwyddyn am Amaeth yn noson wobrwyo Ysgol Penweddig yn ddiweddar. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau i Elin Calan Jones, Penbryn Mawr ar gael yr ail am Actores Orau o dan 26 yng nghystadleuaeth Y Ddrama CFfI, Ceredigion. Llongyfarchiadau mawr i'r Clwb am ddod yn ail hefyd.

**Noson Lawen**
Roedd yn braf gweld Hedd Jenkins, Tŷ Uchaf ar lwyfan y Noson Lawen yn canu gyda chôr Ysgol Henry Richard, Tregaron.

**Pen blwyddi Arbennig**
Dymuniadau Gorau i Ann Jones, Tynddraenen ar ddathlu ei 70 mlwydd oed ar 18 Mawrth ac i Mansel Evans, Penbanc yn 60 ar 30 Mawrth. Pob hwyl ac iechyd i chi eich dau.

**Cymdeithas Cyfeillion Cofadail**
Aeth y Gymdeithas eleni, yn ôl yn ein traddodiad bellach i ddathlu Dydd Gwyl Dewi yn Fferm Ffantasi. Mwynhawyd cawl bendigedig a chafwyd pwdin blasus i ddilyn. Geraint ddiolchodd i Lloyd a Diana am noson hyfryd ac hefyd i bawb a ddaeth ac a enillodd y gwobrau raffl. Cydymdeimlwyd â Ken, Edwina ac Elin ar golli chwaer i Ken yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesa, pryd bynnag fydd hynny.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Nerys Evans, Maesnewydd ar gymhwyso'n ddiweddar i fod yn nyrs ddeintyddol. Dwy flynedd o hyfforddiant ac ymdrech wedi talu'r ffordd.



Llongyfarchiadau i Nerys Evans, Maesnewydd ar gymhwyso'n ddiweddar i fod yn nyrs ddeintyddol. Dwy flynedd o hyfforddiant ac ymdrech wedi talu'r ffordd.

Afan Electrical Limited
NICEIC Approved Contractor — UKAS Product Certification 118
**Gosod a chynnal systemau trydanol**
- Gosod larymau tân a'u cynnal
- Goleuadau argyfwng
- PAT (profi offer cludadwy)
- Profi ac arolygu rheolaidd
- Gosod a chynnal systemau teledu cylch cyfyng (CCTV)
- Systemau dŵr a gwresogi
- Gosod ceblau rhwydweithiau cyfrifiadurol a'u hardystio

Ffôn: 01970 630202
E-bost: enquiries@afanelectrical.co.uk

CPS Crosswood Property Services Ltd
**Adeiladwr Cyffredin**
Registered Heating Business — OFTEC — Gas Safe Register
- Cawodydd mynediad rhwydd - stafelloedd gwlyb
- Adnewyddu stafelloedd ymolchi
- Gwresogi olew a gwaith plymio
- Adnewyddu eiddo
- Gwaith gosod teils
- Gosod lloriau diogelwch

Ffôn: 01970 626609
E-bost: enquiries@crosswoodpropertyservices.co.uk

AFAN ABLEDD CYMRU
AFAN ABILITY WALES
**Cefnogi bywyd annibynnol ar draws Canolbarth Cymru**
&
HAMDDENA AWYR AGORED AFAN









Ffôn: 01970 615400
E-bost: sales@afanbility.wales

**Ystafell arddangos ar agor yn:**
Uned 25
Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3JQ
(Ar bwys Canolfan ailgylchu gwastraff cartref)

**Oriau agor:**
Dydd Llun - Dydd Iau: 10-7
Dydd Gwener - Dydd Sadwrn: 10-5
Dydd Sul: 10-4

# Llanddeiniol

**Firws Corona**
Dyma air rydym wedi clywed tipyn amdano yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae'n edrych yn debyg bydd yn effeithio ein bywydau am dipyn yn rhagor. Edrychwn ar ôl eich hunain yn y cyfnod ansicr yma a cofiwch ein bod yn gymuned. Gallwn helpu ein gilydd a chefnogi fel bod angen. Mi fydd siarad ag eraill ar y ffôn yn bwysig wrth i ni hunan-ynysu. Mae grŵp cymorth wedi ei sefydlu yn ardal Llanrhystud a Llanddeiniol ac mae'n siwr eich bod wedi derbyn taflen wybodaeth drwy'r blwch post. Defnyddiwch y gwasanaeth i sicrhau bod gyda chi yr oll sydd angen arnoch. Os ydych eisiau unrhyw beth yn ystod yr wythnosau nesaf neu eisiau sgwrs ar y ffôn, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi. Enfys 01974 202287.



Bryan a Lisa o flaen y gynuilleidfa yn y Gymanfa Ganu.

**Eglwys Sant Deiniol**
Mae Eglwys Llanddeiniol yn ddiolchgar fawr i Bryan yr Organ am ddewis i gynnal Cymanfa Ganu yn yr eglwys i ddathlu ei ben blwydd yn saith deg oed ar nos Sul 8 Mawrth. Roedd yr eglwys yn orlawn a chododd y noson yn agos at £800, gyda'r holl elw yn mynd at yr Eglwys.

Cafwyd ein diddanu'n hudolus gan artistiaid Daniel Smith (organydd), Vernon Maher (unawdydd), Ella Jones (unawdydd), aelodau CFfI Llanddeiniol a Chôr Cymysg CFfI Felinfach. Cafodd y noson ei arwain yn frwd ac yn fedrus gan Lisa Jones, merch Bryan. I ddilyn roedd te bendigedig a chacen pen blwydd enfawr yn yr Hen Ysgoldy.

Dywedodd Bryan er ei fod wedi symud o'r pentref ers rai blynyddoedd, y byddai Eglwys Llanddeiniol wastad yn bencadlys ysbrydol iddo. Diolch yn fawr iti Bryan gan holl aelodau Eglwys Llanddeiniol.



Criw yr Ysgol Sul yn ei coronau hardd.

**Bryan yr Organ yn 70**
Cynhaliwyd parti penblwydd Bryan yr Organ yn Eglwys St Deiniol ar brynhawn Sul 8 Mawrth. Nid parti arferol oedd hwn ond cymanfa ganu ardderchog. Braf iawn oedd gweld yr Eglwys yn llawn a'r lle yn morio canu. Bu'n brynhawn byrlymus o ganu cynulleidfaol a chyflwynwyd eitemau gan CFfI Llanddeiniol, CFfI Felinfach, Vernon Maher a Ella Jones. Arweiniodd Lisa, merch Bryan, yn hwylus iawn a cyflwynwyd yr eitemau gan y Parch Julian Smith. Mwynhaodd Bryan ganu ei hoff emynau yn ogystal â'i chwarae gan fod Daniel Smith wedi ei gynorthwyo gyda'r cyfeilio. Penblwydd Hapus Bryan.

**Ysgol Sul**
Cyhaliwyd Ysgol Sul arbennig ar ddydd Gŵyl Dewi eleni. Cafodd y plant gyfle i greu draig allan o glai a chreu daffodil hardd i fynd adre gyda nhw. Buo ni hefyd yn coginio pice ar y maen ac yn clywed am hanes Dewi Sant. Gwahoddwyd y rhieni i ymuno â ni ar ddiwedd y sesiwn am de prynhawn Cymreig gyda phice ar y maen, cacennau bach daffodil a bara brith. Ar ddydd Sul 15 cafwyd sesiwn ysgol Sul a buom yn sôn am stori Esther. Buom yn chwarae gemau i'n helpu i ddysgu mwy am gymeriadau'r stori ac yn creu coron hardd i Esther. Gobeithio cawn ni ddod nôl ynghyd yn fuan.

# Cofiwch Dryweryn

Yn ddyddiol dwi'n gyrru heibio i wal Cofiwch Dryweryn ac yn ystyried sut mae wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Teimla yn llai trawiadol nac y bu oherwydd iddo golli uchder yn ystod yr achos o fandaliaeth llynedd. Peth braf iawn oedd clywed ei fod wedi brynu i'w ddiogelu i'r dyfodol gan Dilys Davies. Mynychais gyfarfod yn ddiweddar a drefnwyd i drafod cynlluniau cyffrous i adnewyddu a gwarchod y wal eiconig.

Elin Jones, Aelod Cynulliad Ceredigion alwodd bawb ynghyd i roi cyfle i gynrychiolwyr yr ardal i glywed mwy am yr hyn sydd ar droed. Mae'r perchennog newydd wedi gofyn i Nathan Goss o Aberarth, i reoli'r cynllun cadwraeth i ddiogelu'r wal. Mae Nathan wedi gweithio yn y maes cadwraeth adeiladau ers blynyddoedd, gan gynnwys gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar Llanerchaeron. Y cynllun yw i ail-adeiladu'r wal, ei chryfhau, ei pheintio a datblygu syniadau i ddehongli'r hanes ar y safle.

Dyma'r hyn oedd gan Elin Jones AC i'w rannu gyda ni.

'Yn naturiol, mae gan nifer o bobl trwy Gymru a thu hwnt diddordeb mawr yn y gofeb i Dryweryn. Yn y cyfarfod, cytunwyd y bydd yna waith yn cychwyn cyn hir i ddiogelu a dehongli'r Wal, i glirio rhywfaint o'r safle o gwmpas, gan gynnwys rhai o'r coed a'u gwreiddiau lle mae'r rheiny yn tanseilio'r Wal. Bydd y Wal yn cael ei chodi yn agosach i'w maint gwreiddiol pan y'i pheintiwyd yn wreiddiol yn y 1960au, gan ddefnyddio'r cerrig sydd wedi cwympo ac sydd ar lawr. Yn dilyn y gwaith cadwraeth, mi fydd artist lleol yn gweithio gyda phlant Ysgol Myfennydd i beintio'r Wal eto i'r cynllun eiconig. Yn y pen draw, y bwriad yw y bydd bwrdd dehongli yn cael ei godi i adrodd stori Tryweryn a'r Wal.'

Edrychwn ymlaen i weld y gwaith yn dechrau a'r wal yn ail godi eto yn gofeb drawiadol gyda'i neges bwysig. Diolch i Dilys Davies am sicrhau fod y gwaith am gael ei gwblhau drwy ei nawdd hael ac i Elin Jones, am gydlynu'r cyfarfod. Sicrhawn ein bod yn eich cadw i fyny gyda'r datblygiadau diweddar yn Y DDOLEN.

# Aros i feddwl gan Beti Griffiths

Hwyrddydd o Ebrill ydoedd
Ebrill a'i awel fwyn,
Ac ar y ffordd y defaid
Ai heibio gyda'u hŵyn:
Y defaid a'u hŵyn ai heibio
I fyny am 'Fwlch y Llyw'
Hwyrddydd o Ebrill ydoedd
Meddyliais am Oen Duw.

Bob tro y clywaf y gerdd yma yn cael ei chanu neu ei llefaru, llifa'r atgofion yn ôl o'r cyfnod pan oeddem yn blant yn Rhiwfallen gynt yn cerdded y defaid draw i 'Bwll yr Olchfa' ar waelod caeau Garth Fawr i gael eu golchi ac yna yn ddiweddarach cael eu dipio ar y fferm. Y dyddiau hyn, pan fyddaf yn teithio lawr i gyfeiriad croesffordd Rhydyrefail ac edrych draw at gaeau'r Garth gwelaf y defaid yn pori ar y bronnydd a daw'r cyfan i brocio'r cof.

Gŵyr y cyfarwydd nad oedd Rhiwfallen yn 'ranch' o le ond roedd yn angenrheidiol i olchi a dipio'r defaid fel oedd raid i'r ffermydd mwyaf. Wrth gwrs, fy mrawd Isaac oedd y fforman gan ei fod yn mynd yn gyson i helpu yn y Garth ar ddydd Sadwrn ers yn reit ifanc.

Mae'r bardd Ceiriog wedi ein hatgoffa o hyn:
'Mae cenhedlaeth wedi mynd
A chenhedlaeth wedi dod.'

Phillip sydd wrth y llyw yn y Garth heddiw ond daeth atgofion fyrdd i lenwi'r cof wrth ffarwelio â'i dad, yr annwyl Roland George a fu farw ar 15 Chwefror eleni. Roedd yn fab i Rees ac Elizabeth George ac yn ŵyr i'r porthmon adnabyddus, John George ac mae llawer o'i ddisgynyddion ef yn parhau i fyw yn yr ardal ac yn cyfrannu'n sylweddol i fywyd amaethyddol a diwylliannol ein cymunedau.

Cofiaf yn dda am rieni Roland, roedd yna ryw urddas naturiol yn perthyn iddynt. Byddem fel plant yn gwneud ymdrech i gyrraedd Garth Fawr ar doriad gwawr ar fore Dydd Calan i hela calennig a chael croeso arbennig gan Mrs George. Byddem yn tynnu ein 'sgidiau a'n 'sanau o flaen tanllwyth o dân gan fod llosg eira yn poeni rhai ohonom. Byddem yn teimlo lawer yn well wedyn ac yn barod i barhau ar ein taith.

Bu Isaac, fy mrawd yn gysylltiedig â theulu'r Garth am bron drigain mlynedd a dylasai fod wedi ymddeol ond nid oedd y gair 'ymddeol' hwnnw yn ei eirfa. Roedd ganddo barch mawr tuag atynt fel teulu a hwythau yn ei barchu yntau.

Clywn lawer o bobl yn dweud y dyddiau hyn fod pethau 'wedi altro', digon teg, ond diolchwn, er hynny fod llawer o bethau wedi newid er gwell. Bu fy nhad yn was ffarm am nifer o flynyddoedd a chofiaf ef yn dweud nad oedd ef a'r gweision eraill yn cael rhannu yr un bwrdd â'r Meistr a'r Meibion mewn ambell i fferm. Byddent hwy yn cael cig moch ac wy i frecwast ond bara sych fyddai'r gweision yn ei gael. 'Wfft iddynt', ddweda i, roedd fy nhad yn haeddu gwell! OND NID FELLY OEDD HI YN YNG NGARTH FAWR.

Bu Roland ac Isaac fel dau frawd gydol y blynyddoedd a bu Phillip yn ffrind triw, ffyddlon a chefnogol hyd y diwedd.

Cofiwn am y rhaglen deledu 'Y Porthmon' a gafodd ei lleoli yng 'Ngarth Fawr' pryd y gwelsom Roland yn marchogaeth ei ferlen fach 'Daisy' lawr caeau 'Llechwedd' – y gwir borthmon mewn cytgord perffaith â'i anifeiliaid.

Bu Roland fyw bywyd llawn ac roedd yn un o'r aelodau hynaf pan ddechreuais yng Nghlwb Ffermwyr Ifainc Lledrod. Yr adeg honno roedd rhaid cynnau tân yn y Festri a gwnaeth y gwaith hynny'n llwyddiannus. Gobeithio bod aelodau'r Clwb heddiw yn gwerthfawrogi'r ymdrech a'r dyfalbarhad a wnaed i gadw'r fflam ynghyn yn y cyfnod cynnar.

Bydd yn chwith heb Roland ond diolchwn am gael ei adnabod. Roedd y dyrfa enfawr a ddaeth i'w angladd yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn ffarwelio â pherson go arbennig.

'Un addfwyn a bonheddig'.
Coffa da amdano!

## Trisant

**Cipio Cadair Gŵyl Ddewi yn Eisteddfod Swyddffynnon**

Aled Evans o Drisant oedd y bardd cadeiriol yn Eisteddfod Swyddffynnon eleni. Ym marn y beirniad y Prifardd Dafydd J Pritchard, ymgais Aled oedd y gorau allan o un ar bymtheg o gynigion am gyfansoddi emyn ar gyfer 'Priodas'. Dyma'r tro cyntaf iddo ymgeisio am gadair Swyddffynnon er iddo ennill ei gadair eisteddfodol gyntaf am gyfansoddi soned yn Eisteddfod Gadeiriol Llanfihangel ar Arth ddwy flynedd yn ôl. Cyfarchwyd y bardd buddugol gan Megan Richards, Aberaeron (Bardd buddugol 2019) a'r Parch Aled Lewis, Ystrad Meurig. Canwyd y Ffanffêr ar y corn gan Efan Williams, Lledrod a chanwyd cân y cadeirio gan Guto Lewis, Llanon.

Diddorol nodi i fam Aled, sef y diweddar Gloria Williams Evans hefyd ennill y gadair am gyfansoddi emyn yn yr un eisteddfod ym 1977. Mae copi o'r emyn fuddugol ynghyd â chopiau o'r penillion cyfarch ym meddiant Aled o hyd. Y diweddar Archdderwydd Elerydd (Parch W J Gruffydd) a Iorwerth Davies Ysbyty Ystwyth oedd yn cyfarch y bardd ar y noson honno.

## O'r gegin

gan Mair Jones, Trem y Môr

**Caws Macaroni wedi'i bobi**

½ pwys o facaroni
2 owns o fenyn
1 winwnsyn
1 owns o flawd plaen
1 peint o laeth
Halen a phupur
1 cenhinen
1 llwy de o fwstard
4 owns o gaws wedi'i gratio

**Ar y top:**

2 owns o friwsion bara
2 owns o gaws
Ychydig o berlysiau cymysg

Dysgl

Gwres y ffwrn: 190ºC / Nwy 5

Berwch y macaroni fel mae'n dweud. Hidlwch a'i adael neilltu.

Toddwch y menyn mewn sosban gan ychwanegu'r winwnsyn wedi'i dorri'n fân. Yna ychwanegu'r blawd a'r llaeth a'i fud ferwi nes bydd wedi tewhau. Ychwanegwch y cennin, mwstard, halen, pupur a'r caws.

Rhowch mewn dysgl gyda'r briwsion bara gan wasgaru'r caws ar y top. Pobwch am 30-40 munud.



**GOLCHDY LLANBADARN LAUNDERETTE**
CYTUNDEB GOLCHI . CONTRACT WASHING
GWASANAETH GOLCHI . SERVICE WASHING
DUFET MAWR . KING SIZE DUVETS
CITS CHWARAEON . SPORTS KITS
**FFON:- 01970612459**
**JEAN JAMES**

# Llanfarian

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cofion at Brinley a Valmair Davies, Fronhaul ac Annette Davies, Llwyn Onn, Lon Tyllwyd ym marwolaeth mab a brawd sef Geraint Wyn Davies, Rhoshendre, Aberystwyth ddiwedd Chwefror yn 54 oed. Yn ifanc iawn cymhwysodd Wyn yn beiriannydd technegol llwyddiannus yn Aberystwyth a thu hwnt gan sefydlu cwmni 'Sain' a galw mawr am ei wasanaeth sef 'Crisp and Clear'. Bu'n gefnogol iawn i weithgarwch Y Ford Gron yn Aberystwyth ac yn allweddol-gyfrifol am yr arddangosfeyddd Tân Gwyllt arbennig yno bob Tachwedd. Talwyd teyrnged haeddiannol iddo yn y gwasanaeth yn Yr Amlosgfa ar ddydd Mercher, 4 Mawrth gan Geraint Hughes. Anfonwn ein cofion hefyd at y plant sef Craig, Lisa a Scott.

Ergyd drom iawn arall i'r teulu ac yn arbennig i'r plant fu marw cyn-wraig Wyn sef Sue ychydig ddyddiau wedi'r gwasanaeth angladdol. Roedd Sue yn gwella'n foddhaol wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys ond bu farw yn reit ddisymwth. Rydym wir yn meddwl amdanoch yn y cyfnod anodd hwn.

**Eisteddfod yr Ysgol**

Bu'n ddechrau hynod o brysur i gychwyn yr hanner tymor wrth i'r staff a'r disgyblion baratoi ar gyfer eisteddfod yr ysgol, a gynhaliwyd yr Neuadd y Pentref ar 3 Mawrth. Braf iawn oedd gweld cymaint o rieni a chymdogion yn ymuno â ni ac yn cefnogi'r Eisteddfod. Unwaith eto, bu'r cystadlu'n frwd gyda'r disgyblion i gyd yn perfformio'n unigol yn y cystadlaethau llefaru ac unawd ac fel grŵp yn y côr. Yn ogystal, perfformiodd disgyblion CA2 mewn parti adrodd, parti rîcorders a rhai yn chwarae darnau offerynnol yn unigol.

Yn ogystal â'r gwaith llwyfan, cafodd y disgyblion gyfle i gwblhau amrywiaeth o weithgareddau gwaith cartref gan gynnwys barddoniaeth Gymraeg (cystadleuaeth y Gadair), stori Saesneg (cystadleuaeth y Fedal), llawysgrifen, Celf a Dylunio a Thechnoleg. Diolch o galon i Mrs Beti Griffiths am ei gwaith diwyd wrth feirniadu'r holl waith ysgrifenedig a Ms Alwenna Pugh wrth feirniadu'r gwaith Celf. Dwi'n siwr i'r ddwy cael tipyn o dasg



Chelsey a Peter, capteiniaid Rheidol, yn derbyn y llechen i'r tim



Miss Hughes yn perswadio Hope i ganu.

gyn cyrraedd penderfyniad gydag ambell gystadleuaeth!

Bu'r ddau dîm yn ymladd i gyrraedd y brig, gyda pob disgybl o Derbyn i Flwyddyn 6 yn cyfrannu at y pwyntiau, ond eleni, Rheidol oedd yn fuddugol. Da iawn nhw! Enillydd y Gadair eleni, ac yn cael tipyn o sioc wrth gael ei harwain at y gadair oedd 'Pwdin Piggi' sef Gina Davies. Llongyfarchiadau mawr iddi am ei darn hyfryd o farddoniaeth. Enillydd y fedal am y stori Saesneg orau oedd Davy MacDonald gyda stori oedd yn sefyll allan. Da iawn ti Davy.

Carwn ddiolch o galon i Miss Beti Griffiths a



Ymunodd Dewi Sant â ni yn yr Eisteddfod eleni! (Mary o Eglwys Llanychaearn.)

Miss Ruth Davies am eu cyfraniad gwerthfawr fel beirniaid yn ystod y dydd. Braf iawn oedd cael eu cwmni a'u profiad er mwyn gwneud i'r diwrnod redeg yn hwylus dros ben. Heb y beirniaid, ni fyddai Eisteddfod yn bosib, felly diolch yn fawr i'r ddwy ohonoch. Diolch hefyd i'r staff a'r rhieni am eu hamynedd ac ymroddiad wrth baratoi'r plant a'u helpu i ddysgu'r darnau eto eleni.

*Diwrnod y Llyfr*

Bu'n ddiwrnod diddorol a lliwgar yn Ysgol Llanfarian ar Ddydd Iau 5 Mawrth gyda'r holl disgyblion yn cyrraedd wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr. Cawsant amser wrth eu bodd yn gwneud amrywiaeth eang o weithgareddau yn seiliedig ar lyfrau a darllen.



Rhai o enillwyr y cystadlaethau celf yn derbyn eu tystysgrifau.



Y parti adrodd ar lwyfan yr Urdd yn y Neuadd Fawr.

*Eisteddfod yr Urdd*
Aeth pedair o ferched i gystadlu yn y llefaru unigol yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar. Ni chawsant lwyfan y tro hyn, ond bu'n brofiad gwych i'r pedair. Da iawn chi Gina, Chelsey, Nancy ac Ella am rhoi tro iddi. Yn ogystal, aeth grŵp o ferched i gystadlu yn y parti llefaru. Da iawn ferched am fod mor barod i weithio'n galed a rhoi eich amser i'r ymarferion.

*Bags2School*
Casglodd yr ysgol tua 90 bag o hen ddillad i'w hailgylchu yn ddiweddar ar gyfer Bags2school. Edrychwn ymlaen i gael gweld faint o arian bydd hwn yn cyfrannu at goffrau'r CRHA.

*Gweithdy Gwyddoniaeth*
Bu holl ddisgyblion CA2 yn y Brifysgol er mwyn cymryd rhan yn y gweithdy gwyddoniaeth yn ddiweddar. Cawsant amser gwych yn profi amrywiaeth o weithgareddau gwyddonol ac yn cael cydio mewn gecko (uchafbwynt sawl un ohonynt!).

*Llysgenhadon Efydd*
Cafodd Trystan a Sophie Rose gyfle i fynychu hyfforddiant pellach y llysgenhadon Efydd yn Ysgol Plascrug yn ddiweddar. Diolch i Stefano Antoniazzi am drefnu. Roedd y ddau wrth eu boddau!

*Diolch!*
Carwn diolch o galon i Karen a Mary o Eglwys Llanychaearn am eu hymroddiad i'r ysgol. Maent yn ymweld yn reolaidd ac yn dod â dathliadau megis hanes Dewi Sant, Santes Dwynwen a Sant Padrig yn fyw i'r plant (ymwelodd Dewi Sant â ni yn yr Eisteddfod eleni diolch i Karen!) Mae Mary yn medru cyfathrebu â'r plant yn y Gymraeg ac mae Karen yn gwneud ymdrech arbennig i wneud hynny wrth iddi geisio dysgu'r iaith. Maent yn hael iawn i ni fel ysgol ac i'n disgyblion. Diolch yn fawr i'r ddwy ohonoch.

Carwn hefyd ddiolch i Miss Eluned a Mrs Margaret Williams am ymweld â'r ysgol er mwyn hybu'r disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg gydag oedolion yn y gymuned lleol. Diolch yn fawr i chi, rydym yn gwerthfawrogi eich ymdrechion yn fawr iawn.

Bu'r wythnos diwethaf yn un rhyfedd iawn yn yr ysgol, gyda'r plant yn dawel iawn wrth ddeall bod yr ysgol yn mynd i gau am gyfnod am mhenodedig. Carwn ddiolch o galon i'r plant am fod mor amyneddgar a hawddgar wrth i'r staff weithio'n galed i baratoi pecynnau iddynt tra'n ymateb i sefyllfa oedd yn newid pob awr, ac i'r rhieni am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod pryderus yma. Diolch hefyd i Anne MacDonald ac Ellen Aspden am baratoi pecynnau tyfu blodau haul a thatws ar gyfer y disgyblion fel rhan o'u pecynnau.

Hoffwn, ar ran yr Ysgol ddymuno iechyd da i chi i gyd yn ystod y cyfnod yma gan obeithio byddwn i gyd yn medru cwrdd yn rhydd unwaith eto'n fuan iawn. Byddwch yn ddiogel.

# CORNEL Y BEIRDD

Cwmystwyth, bro'r llenorion
Bro'r mwyn a bro'r llygoerion
A bro Merêd y dawnus ŵr
A'r canwr gwerin ffyddlon.

Wel dyma gyfransoddiadau Cwrdd Bach Cwmystwyth sydd yn para yn llewyrchus o hyd. Dyma Soned fuddugol Aled Evans a llongyfarchiadau iddo am gerdd mor hyfryd, Llongyfarchiadau iddo hefyd am ennill y gadair yn steddfod Swyddffynnon eleni ar gyfansoddi Emyn ar gyfer Priodas. Pob hwyl eto i'r dyfodol. Bydd rhagor o gynnyrch Cwrdd Bach Tabor yn ymddangos y tro nesaf.

**Soned fuddugol:**
*System ddŵr gynhyrchu trydan, Tyllwyd*
Wrth dreiglo'n araf drwy y fawnen ddu
Mae gwyrth y creu yn nafnau hen dy rin
Ac wrth it gychwyn ar dy daith i'r li,
Addewid geir am ddiod pêr fel gwin.
Byrlmus ewyn lifa lawr i'r nant,
Gan droelli'n chwim ar draws y creigiau llym.
Wrth gludo'r graean mân i lawr i'r pant,
Forwynig fach ni wyddost faint dy rym.
Cei yrru'r twrbin ar dy ffordd i'r môr
Wrth ollwng holl gynddaredd gwyllt dy ru.
Mae gallu anghymharol yn dy stôr
A thithau Nant Tyllwyd sy'n bŵer cry',
Dy egni'n taro'r llafnau a'u chwildroi
A'th drydan adnewyddol ni chaiff ffoi.
Aled Evans

**Brawddeg ar y gair 'TALIESIN':**
1af. Tyrd acw Lyn i esbonio 'sex' i Nain! (Dewi Llŷr, Caernarfon)
2ail. Tactegau anfoesol lwyddodd i ethol sawl ioncyn newydd. (Alun Jenkins)

**Gorffen Limrig:**
Cyn Dolig fe gafwyd etholiad,
A rhai gafodd sioc o'r canlyniad.
Tawelodd y trydar,
A sawl un mewn galar:

1af. Rhoed goriad rhif deg i ben dafad! (Meiriona Jones)

2il. Beth oedd 'mlân, does gen i ddim syniad. (Alun Jenkins)

3ydd. O golli eu Marc mewn amrantiad. (John Williams)

**Cofiwch anfon eich cynhyrchion at Mary Morgan, Tynewydd, Llanrhystud.**

# Gwrandawyr y Ddolen



Mrs Rene Tannett, sy'n 102 oed, yn derbyn teclyn sain ar ran trigolion Cartref Preswyl Cysgod y Coed, Llanilar, er mwyn iddynt gael gwrando ar Myf o Ffos-y-ffin yn darllen detholiad o'r Y Ddolen. Prynwyd y teclyn gyda rhodd hael y ddiweddar Marian Davies, Llys y Coed, Llanilar. Ar hyn o bryd mae pawb sydd yn y cartref yn siarad Cymraeg.

# Llanrhystud

Gohebydd: Mair Owens, Ynys Wen, Pentre Isaf (01974 202260)

**Cyngor Cymuned Llanrhystud**

Cyfarfu Cyngor Cymuned Llanrhystud ar 4 Mawrth i drafod gohebiaeth a materion a godwyd gan y Gymuned.

Mewn materion a godwyd, derbyniwyd rhybudd oddi wrth y Cyngor Sir i ddweud fod y gwaith i osod y ddwy groesfan ar yr A487 yn dechrau ar 2 Mawrth. Adroddodd y Cyng. Rees-Evans fod y Cyngor Sir wedi addo comisiynu astudiaeth ddichonoldeb yn y flwyddyn ariannol nesaf i edrych beth gellir ei wneud i wella ar ddiogelwch cerddwyr ar y B4337. Diolchwyd i Ben Lake AS am ei gynnig o gefnogaeth a dderbynnir os cynhelir yr astudiaeth ddichonoldeb.

Derbyniwyd llythyron o ddiolch oddi wrth y sefydliadau canlynol: Cylch Meithrin Glan y Môr; Ysgol Myfenydd; Eglwys Llanrhystud; Neuadd Goffa Llanrhystud; CFfI Llanddeiniol; Cymdeithas Gymunedol Llanddeiniol; Ambiwlans Awyr Cymru; Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020. Adroddwyd gwybodaeth yn ôl am y cyfarfod efo Elin Jones AM ac eraill a oedd â diddordeb ynghylch cadwraeth y wal Cofiwch Dryweryn.

Derbyniwyd sawl apêl y mis yma, bydd rhain yn awr yn cael eu hystyried ar ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Gwasanaeth Ambiwlans am gofrestru diffibrilwyr. Rhoddwyd caniatâd i'r clerc fynychu dwy sesiwn hyfforddi Un Llais Cymru.

Derbyniwyd hysbysiad oddi wrth Sefydliad Cadwch Gymru yn Daclus fod pecynnau am ddim ar gael i gynghorau cymunedol er mwyn datblygu gardd bywyd gwyllt – penderfynwyd archebu un o'r pecynnau er mwyn sefydlu ardal bywyd gwyllt yn y cae chwarae.

Rhoddwyd caniatâd i dalu'r biliau a dderbyniwyd oddi wrth *Spanglefish* (darparwr y wefan), Swyddfa Archwilio Cymru, aelodaeth Un Llais Cymru 2020/2021 a Chlwb Pêl-droed Llanrhystud.

Trosglwyddwyd y ceisiadau canlynol oddi wrth aelodau o'r gymuned i'r Cyngor Sir. Yn gyntaf, cais am arwydd '*Stop*' yn lle'r arwydd '*Give Way*' ar gyffordd y B4337 a'r A487 ac yn ail, cais i atgyweirio ac ailwynebu'r ffordd rhwng Rhydlas Uchaf a Phengraig Perris.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Ebrill am 7.30yh yn y Neuadd Goffa.

**Dymuniadau gorau**

Hyfryd clywed fod Rhystud Morgan Glasfryn adre or ysbyty at ôl bod yno am 11 wythnos.

Gobeithio eich bod yn teimlo yn well.

**Ysgol Myfenydd**

*Gala Nofio*

Llongyfarchiadau i'r tîm Gala Nofio am eu hymdrech arbennig yng ngala Cylch Aberystwyth. Llongyfarchiadau arbennig i Jake a enillodd ddau gyntaf yn ei rasus ef.

*Bwa Dynol Hiraf*

Da iawn Isis a Jake a gymerodd ran yn ymgais tref Aberystwyth i gael lle yn y llyfr 'Guinness Book of Records'. Llwyddodd dros 150 o bobl i greu y bwa dynol hiraf a felly gall Isis a Jake a nifer o rai eraill ddathlu eu bod yn rhan o hanes.

*Diwrnod Rhyngwladol*

Roedd yr ysgol yn fôr o liw a'r plant wedi gwneud yn arbennig wrth wisgo mewn gwisg oedd yn gysylltiedig â gwledydd o'u dewis. Cafwyd sioe i arddangos y gwisgoedd ac i enwi'r holl wledydd, dros bump ar hugain ohonynt a'r dasg am weddill y diwrnod oedd dysgu am draddodiadau a chasglu



Tîm Gala Nofio Myfenydd.



Diwrnod y Llyfr ym Myfenydd.



Plant Cyfnod Sylfaen yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.



Criw Newyddion S4C.

**Siop Llanfarian**

Dewis helaeth o nwyddau
Gwasanaeth dosbarthu i gartrefi - papurau dyddiol a.y.y.b
Ar agor bob dydd o'r wythnos
Galwch i'n gweld

**01970 612 067**



Plant Myfenydd gyda'r Cwmni Dawns Cenedlaethol.

ffeithiau am wledydd amrywiol. Diolch i'r Cambrian News am y dudalen o luniau i gofnodi'r diwrnod.

*Crempog*
Bu plant dosbarth Cyfnod Sylfaen yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer gwneud crempogau gan ddefnyddio eu sgiliau rhifedd wrth baratoi y cynhwysion. Roedd yna arogl hyfryd yn llifo drwy'r ysgol wrth i'r ffatri fach gynhyrchu crempogau ac yn fwy pwysig mi roedd blas y crempogau yn fendigedig. Diolch yn fawr iawn blantos am wneud digon i'r plantos yn ogystal.

*Tu fewn tu fas*
Mae cael profi perfformiadau Cwmni Arad Goch pob amser yn brofiad i'w chofio ac ni siomwyd blwyddyn 5 a 6 wrth i'r plant wylio perfformiad o 'Tu fewn, Tu fas ' yn Neuadd Goffa Llanrhystud. Unwaith eto roedd yna neges i'w trosglwyddo trwy berfformiad clodwiw yr actorion ac mae'n ein diolch i'r criw a'r cwmni am brofiad cofiadwy unwaith eto.

*Cwmni Dawns Cenedlaethol*
Cafodd blwyddyn 2,3,4,5 a 6 brynhawn gwych yng nghwmni dawnswyr y Cwmni Dawns Cenedlaethol. Bu nifer o'r plant ar lwyfan Theatr y Werin yn cymryd rhan mewn gweithdy dawns a phawb yn cymryd rhan wrth ddysgu llinell o symudiadau amrywiol yn gysylltiedig â'r byd rygbi. Yn dilyn hyn cafodd y plant gyfle i ofyn cwestiynau cyn i'r cwmni dawns gyflwyno darn o'r sioe Kin sef y darn 'Rygbi'. Diolch yn fawr iawn i Erin Mared am drefnu'r cyfan.

*Diwrnod y Llyfr*
Wrth gerdded mewn i'r ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr roedd hi fel cerdded trwy un llyfr i'r llall. Roedd cymaint o gymeriadau wedi eu cynrychioli gan y plant ac mae ein diolch i'r plant am ymdrech hollol wych. Cafwyd llu o weithgareddau am lyfrau yn ystod y diwrnod a phob plentyn yn cael taleb i wario ar lyfr newydd.

*Dydd Gŵyl Ddewi*
Coch oedd lliw y diwrnod a thwr o gennin pedr ac ambell i genhinen yn ymddangos o fewn yr ysgol wrth i'r plant ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Roedd y geiriau 'Gwnewch y Pethau Bychain...' yn atseinio trwy'r dosbarthiadau wrth i ni ymweld eto â hanes




Fe Godwn Eto! Disgyblion Myfenydd yn Cofio Tryweryn.

Dewi Sant. Fel rhan o'r Siarter Iaith penderfynodd y swyddogion ei bod hi'n amser newid enwau y dosbarth i gynrychioli rhywbeth Cymraeg ac yn yr wythnosau blaenorol bu'r plant wrthi'n casglu enwau ac yn pleidleisio. Felly ar Ddydd Gŵyl Dewi mi ddaeth hi'n amser i ffarwelio gyda'r Dosbarth Hynaf, Dosbarth Canol a'r Dosbarth Cyfnod Sylfaen gan groesawu Dosbarth Tryweryn, Dosbarth Calon Lân a Dosbarth Robin Goch. Hyfryd iawn blant, dewisiadau arbennig o dda gan bob dosbarth.

*Rygbi Bae Ceredigion*
Roedd hi'n hyfryd gweld cynrychiolaeth o'r ysgol ar y rhaglen 'Heno' ar S4C wrth i ferched Rygbi Bae Ceredigion ddathlu cael gwisg newydd ar gyfer eu tîm. Roedd hi'n braf clywed Teleri a Caitlin ac Angharad yn cael eu cyf-weld. Pob llwyddiant i'r Clwb yn y dyfodol.

*Fe Godwn Eto*
Mae yna gyfnod cyffrous o flaen 'Wal Tryweryn' wrth i'r perchennog newydd sicrhau dyfodol y gofeb arbennig yma. Trwy garedigrwydd Dilys cafodd nifer o gynrychiolwyr yn ymwneud â'r pentref gyfle i drafod y datblygiadau diweddaraf a gellir dilyn y datblygiadau yma ar dudalen newydd gweplyfr ar gyfer wal Tryweryn yn ogystal â safle trydar. Cafodd Dylan ar ran yr ysgol gyfle i glywed am y datblygiadau ac i gyfarfod Elin Jones AC a Dilys ymhlith eraill. Mae'n fraint i blant Ysgol Myfenydd gael ei gwahodd i fod yn rhan o'r gwaith a'r datblygiadau ac rydym i gyd yn edrych ymlaen at gychwyn y gwaith.

Yn dilyn y cyfarfod mi ddaeth si i glustiau Newyddion S4C ac fe gafodd y plant ymweliad ar gais Mari Grug o Newyddion S4C er mwyn eu cyf-weld. Diolch i Dylan, Tyler, Ellena, Teleri a Gwydion a hefyd Mr Williams am siarad yn arbennig o flaen y camera a mi roedden i gyd yn falch iawn ohonynt o'u gweld ar y teledu ychydig yn ddiweddarach ar y Newyddion. Dymuniadau gorau i bawb fydd yn gysylltiedig gyda'r gwaith.

*Sant Padrig*
Braf oedd gweld fod Sant Padrig yn cael ei gofio yn yr ysgol a chriw o blant â chysylltiadau gydag Iwerddon. Tipyn o syndod i rai oedd fod gan Sant Padrig gysylltiadau cryf â Chymru.

*Siop Sul y Mamau*
Roedd y plant wrth eu bodd yn cael y cyfle i fynd i siopa ar gyfer Sul y Mamau. Bu aelodau o bwyllgor Rhieni ac Athrawon yn brysur iawn tu ôl i stondin anrhegion a'r plant yn dysgu sut i lapio anrhegion yn daclus a hefyd trin arian. Bydd yna sawl mam lwcus iawn ar Sul y Mamau wrth iddynt dderbyn eu hanrhegion arbennig.

*O 'steddfod i 'steddfod*
Bu Parti Canu yr ysgol, y Parti Cerdd Dant a'r Ensemble yn cystadlu yn Eisteddfod Swyddffynnon ac yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Aberystwyth. Daeth dim llwyddiant i'r partïon yn Swyddffynnon ond mi wnaeth Alanna ddod yn drydydd am adrodd a Betsan yn ail am chwarae offeryn cerdd. Da iawn chi ferched. Ymlaen wedyn i Eisteddfod yr Urdd. Da iawn Alanna am gystadlu yn y cystadleuthau unigol ac y tro yma daeth tystysgrifau gwobrau i'r partïon a'r côr gyda'r Ensemble yn dod yn gyntaf, Parti Cerdd Dant yn ail a'r Côr yn drydydd. Llongyfarchiadau blant. Roedd cyffro mawr wrth edrych ymlaen at ganu eto yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion ond mi ddaeth y newyddion na fydd Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn cael ei chynnal oherwydd datblygiadau diweddaraf yn ystod y mis. Diolch yn fawr iawn i Mr Williams, Donald a Bethan am gynorthwyo gyda'r hyfforddi ac i Gwenllian am gyfeilio.

*Plant Prysur*
Unwaith eto mae nifer o'r plant wedi llwyddo yn eu meysydd gwahanol. Da iawn Alanna ac Erin am lwyddo ym myd y gymnasteg, i Jake am ei dystysgrif pellter nofio ac i Kielan ym myd rygbi. Da iawn chi.

*Y Pasg*
Ni ddaeth y cyfle i ddathlu'r Pasg eleni er i ni deithio drwy'r wythnos olaf yn y gwasanaeth fore Llun. Ychydig a wnaethom feddwl mai dyma fyddai ein wythnos olaf am gyfnod anherfynol oherwydd datblygiadau yr haint sydd wedi torri ar draws bywydau pawb, nid yn unig yn ein cymuned fach ni ond ar draws y byd. Teimlad trist a rhyfedd oedd cau'r drws ar brynhawn ddydd Gwener heb yn wybod pryd fyddai yna fwrlwm o leisiau i'w clywed eto ac roedd yn eithriadol o rwystredig a siomedig i'n criw ym mlwyddyn 6 oedd â chymaint o brofiadau i ddod eto cyn ffarwelio â'r ysgol. Ond rhaid i ni fyw mewn gobaith y byddwn yng nghwmni ein gilydd cyn i'r haf ddod yn ei anterth a than hynny cawn ddiolch i'r plant a'r rhieni am fod mor amyneddgar ac am gydweithio gyda ni, i'r rhieni o fewn yr ysgol ac ymhellach sy'n estyn gofal yn eu ffyrdd amrywiol ac i bawb sy'n dangos caredigrwydd ac ewyllys da yn fyw yn ein cymunedau. Byddwch yn ddiogel, cymrwch ofal gan obeithio y daw yna fwy o hanes eto yn fuan i gymdeithas 'Y Ddolen'.

# Pontarfynach

Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf i Ceiros Davies, Llys Amaeth yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Gwyn yn Ffair Rhos. Estynnwn ein cydymdeimlwn hefyd i Edryd a Jane Jenkins a'r teulu Faengrach yn eu profedigaeth o golli cefnder i Jane sef Jack ym Mhontrhydfendigaid.

**Merched y Wawr**

Yn ein cyfarfod ar 18 Chwefror cawsom noson o hel atgofion drwy wylio DVD o gawl Merched y Wawr y gangen o 1988. Dai Jones, Llanilar oedd gŵr gwadd y noson honno ac roedd fel bod mewn Noson Lawen gyda Dai ar ei orau. Yn ogystal â chanu hen ffefrynnau Cymraeg cafwyd Siôn a Siân – roedd yn werth clywed rhai o'r atebion! Roedd yn agoriad llygad fel roedd llawer ohonom wedi newid a hefyd y gwallt, sbectol a gwisg. Cafwyd rhai eitemau hefyd gan yr aelodau sef Band y Gegin, Sgets a Chôr, digwyddiadau oedd yn dwyn llawer o atgofion doniol. Yn anffodus roedd llawer o gyn-aelodau wedi ein gadael ond mae gennym atgofion da ohonynt a'u cyfraniad gwerthfawr i'r gangen. Noson gyda digon o chwerthin. Roedd fel bod mewn sinema gan ein bod hefyd, drwy garedigrwydd y swyddogion wedi mwynhau hufen iâ wrth wylio'r DVD.

Dathlu Gŵyl Ddewi oedd ein cyfarfod yn ysgol Syr John Rhys ar 3 Mawrth. Croesawodd y llywydd, Mair Davies yr aelodau a'u ffrindiau i'r noson. Guto Lewis wnaeth ddweud y gras cyn gwledda. Mwynhaodd pawb gawl blasus wedi ei baratoi gan Anne Bunton a'r teulu. I ddilyn cafwyd tarten afalau a bara brith, gwledd yn wir. Yn ein diddanu roedd dau ifanc a anwyd yn yr unfed ganrif ar hugain sef Lois Wyn o Ryd-y-main a Guto Lewis o Lanon. Mae'r ddau yn wynebau cyfarwydd mewn eisteddfodau ac yn cael llawer o lwyddiant. Cafwyd ganddynt raglen o safon uchel ac roedd pawb yn canmol eu dewis o ganeuon. Yn cyfeilio iddynt roedd Delyth Hopkins Evans, un sydd bob amser yn barod â'i chymwynas. Talwyd y diolchiadau gan Elaine Lewis a gorffennwyd y noson drwy ganu ein Hanthem Genedlaethol. Diweddglo arbennig i dymor o ddathlu hanner can mlynedd ers sefydlu'r gangen.

**Cyngor Bro Pontarfynach**

*Trafodwyd y materion isod mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Bro*

Cytunwyd i adleoli'r polyn fflag o'r cae wrth ymyl yr Ysgol i ardd Ysgol Mynach.

Yr angen i dorri nôl coed gyferbyn â Chapel Mynach sy'n amharu ar y golau stryd yn y lleoliad dan sylw yn parhau.

Cytunwyd ar y rhoddion canlynol:

£100.00 Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 (Cronfa leol Pontarfynach/Ponterwyd) yr ail daliad a gytunwyd arno'r adeg yma llynedd.
£100.00 Eisteddfod Cwmystwyth (i'w gyflwyno mis Ebrill/Mai ar gyfer Eisteddfod Medi 2020)
£100.00 Ambiwlans Awyr
£75.00 Y Ddolen
£75.00 Clwb Ffermwyr Ifainc Trisant
£50.00 Clwb Pêl-droed Ieuenctid Llanilar
£150.00 Ysgol Gynradd Mynach tuag at gronfa offer cyfrifiadurol.
£75.00 'Ceredigion Schools Rugby Union' tuag at gostau taith Rygbi i'r Eidal: Un o fechgyn yr ardal wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o'r daith.
£50.00 Ysgol Feithrin Penllwyn
£50.00 Treialon Cŵn Defaid Ceredigion 2020.

Yn ychwanegol derbyniwyd cais gan yr Urdd tuag at Eisteddfod yr Urdd 2020. Cytunwyd i beidio â chyfrannu gan gadw at sefydliadau lleol.

Cais am swyddog o 'BroAber360': gwasanaeth Digidol newydd Cymraeg i gyflwyno'r gwasanaeth i'r Cyngor Bro.

Gohebiaeth wrth Mynyddoedd Cambrian Mountains am gydweithrediad i ddarganfod taith gerdded leol.

Draeniau wedi'u blocio yng Nghwmystwyth gan achosi llif yn y ffyrdd sy'n achosi niwed i gerbydau.

Draen wedi suddo wrth ymyl cornel ger Ysgol Mynach.

Bin halen ar y ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth angen ei ailosod/adnewyddu.

Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ynghylch cyflwr ffordd yr A4120 o ran mwd a cherrig oherwydd gwaith adeiladu.

Hefyd i gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch y toriadau gwrychoedd cyson sy'n cael eu gadael ar y ffordd ar ôl i gontractwyr / ffermwyr fod yn torri gwrychoedd.

Gwahoddwyd arbenigwr ystlymod i roi cyflwyniad byr ar edrych ar ôl/denu ystlymod i'r ardal ar gyfer canolbwynt i drafodaeth i'r dyfodol.

Ystyriwyd y Ceisiadau Cynllunio canlynol gan nodi nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau:

A200031: Capel Mynach: Addasu tu fewn i adeilad cofrestredig.

A200032: Capel Mynach: Darparu estyniad i gynnwys cyfleusterau, cegin ac ystafell gyfarfod.

Datganodd J. Hopkins, E. Evans, Rh. Jenkins ddiddordeb gan ymadael â'r cyfarfod.

A200077: Arch View, Pontarfynach. Cynnig unedau 'chalet' a gwaith sy'n gysylltiedig â hyn.



**Yn ddiweddar treuliodd Ceredig Lewis, Dolcoion, Rhos-y-gell (yr ail o'r chwith yn y llun) gyfnod allan yn Seland Newydd. Yn Sioe Llysfasi y llynedd dewisiwyd e a Llion Jones o Lanrwst i gynrychioli Cymru mewn cystadlaethau cneifio yn Seland Newydd. Yn ogystal â threulio amser yn cneifio cymeront ran mewn 5 cystadleuaeth cneifio yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror gan ddod yn ail ymhob cystadleuaeth. Profiad gwych i'r ddau, llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant.**

**Clwb Cerdded Bro Mynach**

Ar Sul olaf Chwefror Rob Davies oedd ein harweinydd gyda dechrau'r daith o Landdewi Brefi. Roedd dros ugain o gerddwyr wedi dod ynghyd a cawsom ddiwrnod sych i gerdded gyda rhai o aelodau Clwb Cerdded Tregaron yn ymuno gyda ni. Buom yn lwcus iawn o'r diwrnod yng nghanol tywydd gwlyb ofnadwy. Dechreuwyd y daith i gyfeiriad Tregaron a throi i'r chwith ac yna i'r dde heibio fferm Pistyll Gwyn ac yna ar hyd y lôn i Bont Llanio. Diflas gweld yr hen ffatri laeth a'r rheilffordd wedi eu cau ers 1970. Yr oedd ffatri fechan yma ers 1896. Cafodd ffatri newydd ei hagor yma yn 1937 gan y Bwrdd Marchnata Llaeth ac erbyn 1950 roedd 120 o bobol yn gweithio ynddi gyda'r llaeth o ffermydd yr ardal yn mynd i Lundain lle'r oedd llawer o Gymru gyda siopau a busnesau llaeth. Yna troi yn ôl dros y bont heibio fferm Ystrad Dewi, dilyn afon Teifi heibio adfeilion y Rhufeiniaid a heibio ffermydd Godre'r Garth, Garth a Llwyn ac yn ôl i Landdewi Brefi. Rhaid oedd galw yn y Riverbank Café i gael cwpaned a sgwrs cyn mynd adref. Diolch i Rob a Lynfa am daith bleserus. Yn anffodus mae ein teithiau cerdded wedi cael eu gohirio am y dyfodol agos oherwydd y Coronafeirws.



# Pen blwydd Hapus



Pen blwydd hapus i Teifi Lewis, Fferm Cefngraigwen a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 9 oed ar 4 Ebrill.




Pen blwydd hapus iawn i Tirion Presacane o Bow Street a fydd yn chwech oed ar 19 Ebrill, wyres Joy a Hywel Jones, Llanrhystud



Ifan Pugh, Tŷ Gwyn, Llangwyryfon, a ddathlodd ei ben blwydd yn 5 oed ar 13 Mawrth.



Pen blwydd hapus iawn i Mari Lloyd, 1 Pierce Place, Pentre-llyn, Llanilar a oedd yn 5 oed ar 12 Mawrth.



Pen blwydd hapus i Elsa Aneurin, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn yn 6 oed ar 27 Mawrth. Cariad mawr oddi wrth Dad, Mam, Meia ac Emrys.



Pen blwydd Hapus i Ela Jên Tandy yn 4 oed ar y 10 Ebrill. Llawer o gariad oddi wrth Dad, Mam a Twm x



Pen blwydd hapus i Rhys Lewis, Fferm Cefngraigwen, a ddathlodd ei ben blwydd yn 11 oed ar 7 Mawrth

## Joiwch y dathlu

# Capel Seion

**Neges Bwysig**
Wrth i ni wynebu cyfnod gofidus y feirws corona, ni fydd y Capel na'r Ysgol Sul yn cynnal gwasanaethau am o leiaf ddau fis, pan fydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu a phenderfyniad pellach yn cael ei wneud yr adeg hynny. Cadwch yn iachus a diogel gyfeillion.

**Dathliadau yr Ysgol Sul a'r Capel**
*Gŵyl Dewi*
Dydd Sul 1 Mawrth, dathlwyd Gŵyl Dewi Sant yn yr Ysgol Sul gydag amrywiol weithgareddau ar ôl paned, pice bach a bara brith wedi eu paratoi gan Bethan Owens a'r teulu. Dewisodd Olwen ac Eleri dair cân i'w cydganu, cafwyd hanes Dewi a'i waith gan John Gwynn a bwrdd arddangos ac arno luniau yn nodi ei daith. Paratowyd cwis gan Eirlys Jones a gêm fwrdd Dewi i'r plant bach gan Eirlys Williams. Tîm arbennig iawn yn helpu dathliad cofiadwy.

*Dydd Gweddi'r Byd*
Ar Ddydd Gweddi'r Byd, 6 Mawrth, daeth nifer dda ynghyd am baned a theisennau traddodiadol o Zimbabwe. Fel arfer, Olwen a Magdalen oedd y cogyddion. Cafwyd tipyn o drafod a hwyl yn blasu'r gwahanol ryseitiau – diolch i'r ddwy. Thema'r oedfa eleni oedd 'Cod dy Fatras a Cherdda', a'r myfyrdod yn pwysleisio tair berf weithredol: cod, cymer, a cherdda. Diolch i Eirlys Williams, fel bob amser, am greu arddangosfa chwaethus, liwgar o'r deunyddiau a ddaeth i law. Esboniwyd arwyddocâd y llun ar y clawr, y faner, y tair cannwyll a'r llwythau o fewn y wlad.

*Oedfa Deuluol*
Ddydd Sul 8 Mawrth, ar ddiwedd wythnos brysur yng Nghapel Seion cawsom gyfle i fwynhau cwmni'n gilydd eto, yn sgwrsio a chloncio dros baned. Diolch i Barry a Glesni am eu paratoadau ar ein cyfer. Awr yn hwyrach na'r arfer (11:00), dechreuwyd ar oedfa deuluol hwyliog a chynulleidfa deilwng yn cymryd rhan ac yn mwynhau asbri'r plant. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein gweinidog gyda chymorth Angharad Jones, Eleri Wynn Jones, Glesni Powell a Magdalen Davies. Cafwyd egwyl i feddwl am thema'r Dydd Gweddi Byd-eang a baratowyd gan chwiorydd Zimbabwe.

Yna cawsom gyfle i adrodd hanes Iesu'n cael ei groesawu gan y dyrfa ar Sul y Blodau a gorffen yr hanes (am y tro!) wrth fwrdd y Swper Olaf. Cafodd y gynulleidfa gyfan eu rhan yn nrama'r wythnos fawr – gydag Annas a Chaiaffas yn gwgu ar ddyfodiad y Crist! Ac yna i gloi, cyn cyd-gymuno, cawsom y fraint o dderbyn Bethan Evans a Tom Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn, ynghyd â'u plant Meia, Elsa ac Emrys, yn aelodau i'r Eglwys yng Nghapel Seion. Roedd yn achos llawenydd mawr i ni fedru croesawu teulu ifanc i'n plith.

Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn hael ei fendith ar ein teuluoedd ac ar ein cynulleidfa. Diolch i Ina Tudno Williams am baratoi'r gwasanaeth a threfnu bod pawb wedi cael bod yn rhan o'r oedfa.







Cymdeithas y Paith



Cwrdd Gweddi Gwragedd y Byd yng Nghapel Seion.



Dathliadau'r Ysgol Sul a'r Capel

**Cymdeithas y Paith**
Wedi tymor llewyrchus dros ben yn hanes Cymdeithas y Paith Capel Seion teithiodd nifer luosog o'r aelodau i Westy'r Hanner Ffordd Pisga i ddathlu Gŵyl Dewi ac i gloi ein gweithgareddau am dymor arall yn hanes y gymdeithas. Agorwyd y noson gan y gadeiryddes drwyadl o Gwarallt Capel Seion a'n croesawodd i gyd yn gynnes gan gofio yn barchus am bawb oedd yn methu bod yn bresennol. Cyn y wledd cawsom weddi agoriadol dreiddgar gan ein Gweinidog annwyl y Parch Ddr Watcyn James. Gwledd o gawl blasus iawn a gawsom a'r cyfan wedi ei baratoi yn drylwyr gan Ann a'r teulu a'r staff cyfeillgar. Mwynhawyd yr arlwy a diolch i bawb am noson o safon a erys yn y cof am amser hir.

Wedi'r wledd a'r cymdeithasu, braint fu i Eirlys gyflwyno ein gŵr gwadd sef Aelod Seneddol gweithgar Ceredigion Mr Ben Lake. Traddododd ei neges wych yn feistrolgar a'i hanes ers mynd i'r senedd yn Llundain ac yna ei ailethol. Bu'r neges hon yn agoriad llygaid i lawer ohonom wrth weld a chlywed sut mae Ben erbyn hyn yn feistr ar ei waith ac yn cynrychioli ei annwyl Sir gydag arddeliad. Braint fu gwrando arno gyda'i gymeriad hoffus, y llais hyfryd a'r siarad cyhoeddus o'r safon uchaf â'r cyfan yn sicrhau gwrandawiad perffaith. Wedi'r neges ddiddorol aeth Ben ymlaen i feirniadu'r limrig a'r frawddeg ac yn wir estynnwyd llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr oll am eu gwaith canmoladwy. Dyma eitemau a ddaeth i'r brig yn ystod y noson, gyda chlod uchel y beirniad craff:

*Limrig*
1af:
Aeth Boris i'r barbwr un diwrnod,
Yn chwilio am gysur a maldod,
Druan â fe
Mae'i wallt dros y lle,
A nawr mae e'n hwyr i'r cyfarfod.

**Soffia Nicolas** (wyres Mr John Williams, Moreia)

2il:
Aeth Boris i'r barbwr un diwrnod,
I siafio ei wallt, er mawr syndod,
Daeth allan yn foel
A'i ben fel tun oel,
Mor llithrig â chefen ei dafod.

**Elen Lewis**

3ydd:
Aeth Boris i'r barbwr un diwrnod,
Ei wallt, fel ei ben, yn hen chwaldod,
Roedd BRECSIT yn galw
Ond y termau'n rhai salw,
Wel dyna beth yw annibendod.

**Amanda Roberts**

*Brawddeg ar y gair BRECSIT*

1af: Brwydro'n rhyfeloedd, er colled sylweddol i'n treftadaeth. (Amanda Roberts)
2ail: Brawychus! Rowndiodd estyniad corona'n sydyn i'r tiroedd. (Angharad Jones)
3ydd: 'Bysys reolaidd' erfyniodd Capel Seion, 'i'n trigolion'. (Angharad Jones)

Wedi'r gwobrwyo a'r cymdeithasu rhagorol aeth y gadeiryddes ymlaen i gyflwyno ei holynydd cydwybodol am y tymor nesaf sef yr amryddawn Elen Lewis Sarnau Fawr. Diolchodd Elen yn arbennig iawn i bawb a wnaeth dymor y Gymdeithas mor llwyddiannus, i Ben Lake ac i'r Hanner Ffordd am noson o'r radd flaenaf i ddathlu ein Nawddsant Dewi a symbylodd lawer o bethau pwysig ar ei daith o fywyd llawn gan bwysleisio 'gwnewch y pethau bychain'. Wrth gau pen y mwdwl am y noson a'r tymor edrychwn ymlaen i'r tymor nesaf yn eiddgar gyda chadeiryddes a phwyllgor gwaith brwdfrydig yn trefnu ar ein cyfer. Yng ngeiriau'r diweddar Miss Nesta Evans:

Tra pery'r Paith i lifo
Ni phalla seiniau'r iaith.
A'r etifeddiaeth fydd yn ddiogel
Yng Nghymdeithas lân y Paith.

*Dathlu*
Llongyfarchion cynhesaf i Haydn Williams, Pisga ar ddathlu ohono ben blwydd arbennig ar 23 Mawrth. Mwynha dy weithgareddau dathlu a phob dymuniad da i ti yn y dyfodol.

*Ysbyty*
Ein cofion cynnes at Mrs Ina Williams, Pantycrug, sydd wedi bod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Rydym yn mawr obeithio ei bod yn dal i wella a phob dymuniad da i'r dyfodol.

*Y Llifogydd*
Rydym wedi cael digon o law am rai wythnosau, rhai yn fwy na llawer, ac eto rydym mor ddibynnol ar y glaw. Rhaid cydymdeimlo â'r bobl hynny druain sydd wedi cael llifogydd yn eu cartrefi fwy nag unwaith. Mae'n syndod faint o ddinistr a thorcalon y gall y llifogydd achosi i'r holl deuluoedd ac mae ein cydymdeimlad llwyr gyda hwy.

Yn sgil hyn, derbyniais gerdd fechan gan gyfaill yn ddiweddar sy'n sôn am afonydd Pumlumon, sef Gwy, Hafren a Rheidol. Wrth wylio'r teledu, gwelsom lifogydd enfawr yn ardaloedd y Gororau, sef ardaloedd Amwythig, Caerloyw a Chaerwrangon sydd wedi achosi cymaint o ddifrod yn y parthau hynny. Wrth gwrs, dwy o afonydd Pumlumon sydd yn gyfrifol am y llanast, sef Gwy a Hafren. Wrth deithio dros Eisteddfa, mae afon Gwy yn teithio'n hapus ddiniwed ger y ffordd fawr ar ei thaith i'r môr. Mae'n ddiddorol dros ben i ddilyn taith yr afonydd tua'r môr, a'r ardaloedd helaeth a ddyfrheir ganddynt. Dyma gerdd fechan gan T Hughes Jones, Blaenpennal:

### Tair Afon

Fe gysgai tair morwynig
Ar ben Pumlumon fawr,
Sef Hafren, Gwy a Rheidol
Yn disgwyl toriad gwawr.

Meddylient godi'n fore
A theithio'n rhydd a llon,
A chyrraedd cyn yr hwyrnos
Eu cartre 'nghôl y don.

Dihunodd Gwy a Hafren
O'u cwsg yn fore iawn,
A daethant 'rôl hir deithio
I'r môr yn hwyr brynhawn.

Ond cysgodd Rheidol ieuanc
Heb bryder yn ei bron,
Ac wedi hwyr ddihuno
Rhuthrodd yn syth i'r don.

A dyna pam mae Hafren
A Gwy'n ymdroelli'n faith,
A Rheidol fach yn rhedeg
Yn syth i ben ei thaith.

# Nodiadau Natur

*gan Ann M. Davies ac Ian Sant (Ffotograffydd)*

Mae blas pawb mewn cerddoriaeth yn gwahaniaethu – rhan o amrywiaeth cyfoethog bywyd! Ond mae rhai yn gwirioni yn waeth nag eraill ac mae'n debyg mai yno rydw i yn perthyn. Y rheswm am hynny yw fy mod yn cael fy swyno bob gwanwyn gyda sŵn Gwenyn Bwm cyntaf y tymor ym mlodau'r Grug. Mae'r heulwen sydd wedi bod yn ddieithr iawn hyd yn hyn, wedi eu denu allan yn awr, yn enwedig y breninesau mawr blewog. Roedd un mor awyddus i chwilio blodyn fel iddi dybio mai dyna oedd yr addurn ar y pilyn lliwgar ar y lein ddillad. Siom fu'r ymgyrch yna rwy'n ofni!



Mae rhywun yn ymwybodol fod patrwm y tymhorau yn anochel yn ailadrodd ei hunan bob blwyddyn a'r un digwyddiadau yn plesio. Er hynny maen nhw yn rhoi rhyw wefr ffres bob tro ac nid yw eleni yn eithriad. Am wn i nad oes mwy fyth o benbyliaid yn y pwll, yn duo'r dŵr wrth iddyn nhw sugno'r maeth olaf allan o'r jeli cyn ei ddifa yn llwyr.

Afraid sôn am sioncrwydd y Cennin Pedr ym mhob man wedi ymddangos yn amserol iawn ar gyfer dydd Gŵyl Dewi. Ond mae ambell glwstwr wedi rhoi pleser anghyffredin oherwydd mai eleni maen nhw wedi blodeuo am y tro cyntaf. Math gwyllt ydyn nhw gyda 'phetalau' gwelw o gylch y goron fewnol ac yn edrych yn fwy eiddil na'r rhai a welir yn y gerddi fel arfer. Cefais rodd o'r rhain gan rywun oedd wrthi yn ei ardd yn ceisio eu teneuo gan eu bod wedi mynd yn rhy drwchus o dan y coed a ddim yn blodeuo fel y dylent – er bod cannoedd yn eu blodau yno. Stopiwyd y car i edmygu'r sioe a chymerodd yntau hoe i'n cyfarch. Canlyniad y sgwrs fu cael bagied go lew o'r Cennin Pedr i fynd adre ac mae hynny sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn. Y bonws arall yn y busnes oedd – Cennin Pedr o ardd un o fythynnod wrth fynedfa hen stad yr Hafod yw rhain a ninne'n digwydd pasio ar yr adeg iawn. Maen nhw yn fawr eu parch hyd ymyl y lôn sy'n arwain i'r coed.

Parchus yw'r barcud sydd yn nythu eleni eto o fewn golwg i'r tŷ – yn cylchu yn wyliadwrus uwchben y safle. Yna mae'r iâr ar y nyth yn rhoi chwibaniad bach ac fel ergyd o wn mae'r ceiliog yn anelu am y nyth. Filltir neu ddwy i ffwrdd, gweld barcud arall gyda brigyn yn ei big, yn paratoi i nythu braidd yn hwyrach na'n cymdogion ni.

Tymor nythu yw hi wrth gwrs a rwy'n amau fod yr Aderyn Du wrthi yn paratoi o dan yr Iorwg sy'n gorchuddio sgerbwd yr hen dractor, ble bu'r Fronfraith llynedd. Does gen i ddim i'w ddweud wrth y goeden Leylandi ond un peth – mae'n lle delfrydol i guddio nyth rhag y Piod. Mae Llwydyn y Berth braidd yn gynhyrfus pan fydda i'n mynd heibio i glawdd drws nesa – cliw yn arwain at nyth arall efallai.

Fel y gwyddoch erbyn hyn mae'n debyg, nid wyf yn ffrind i'r Wiwer Lwyd chwaith. Teimladau cymysg felly oedd gweld nyth yn cael ei hadeiladu yn gywrain ar goeden Ffawydd ar ymyl y ffordd fawr. Wrth basio yn ddiweddar syndod oedd gweld Piod yno ac anodd dweud a'i tresbasu oedden nhw neu falle mae nhw oedd berchen y campwaith ac nid y Wiwer. Waeth un na'r llall – mae eu cynnydd yng nghefn gwlad yn beryg i lawer o'n hadar bach gan eu bod yn rhwygo nythod a bwyta wyau a chywion.

Mae wedi bod yn dristwch i weld y Ffawydd hardd naill ochor i'r ffordd ger Gelli Angharad yn cael eu llifio lawr i'r bôn. Nid wyf yn gwybod pam fod hyn yn digwydd ond mae un o olygfeydd hyfrytaf y gwanwyn wedi diflannu – y twnel o ddail gwyrdd golau. Efallai fod yna reswm da dros y lladdfa ond bydd galwyni llai o ddŵr yn cael eu tynnu trwy eu gwreiddiau o'r afon gerllaw. Mae pob coeden yn anweddu maint enfawr o ddŵr trwy eu dail. Er enghraifft mae un goeden Dderwen yn anadlu allan tua 600 litr o ddŵr bob dydd. Dyna pam yr oedd bobl slawer dydd yn plannu coed mewn mannau gwlyb i'w sychu a'u gwneud yn fwy defnyddiol. Ar ben hynny mae planhigion, yn enwedig coed yn eu dail, yn cynhyrchu ocsigen ac yn defnyddio carbon deuocsid. Mae bywyd cefn gwlad wastad wedi bod yn iachach – ond mae gelyn newydd ar y gorwel nawr sydd ddim yn parchu unrhyw ffiniau.

# Llanfihangel y Creuddyn

Gohebydd: Elen Lewis,
Sarnau Fawr, (01974 261236)

**Estyn Llaw**
Er gwybodaeth mae yna grŵp o wirfoddolwyr brwd yn Llanfihangel y Creuddyn sy'n barod i gynorthwyo unrhyw un o'r ardal sy'n hunanynysu ac eisiau cymorth yn ystod y dyddiau anodd hyn. Mae yna hysbyseb ar hysbysfwrdd y pentref lle gallwch nodi eich anghenion neu cysylltwch â Mary Williams ar 07779764446.

**Deunaw oed**
Pen blwydd hapus a phob dymuniad da i Sara Hopton, Dolau Ceunant a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn ddeunaw oed ar 12 Ebrill.

**Cymdeithas Llanfihangel y Creuddyn a'r Cylch**
Gobeithir cynnal Cinio Cymdeithas Llanfihangel y Creuddyn a'r Cylch nos Wener, 15 Mai am 7:30pm yn nhafarn Y Ffarmers. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un sydd am ymuno am noson o gymdeithasu. Os oes diddordeb gennych, a fyddech cystal â rhoi gwybod i Gwen Hopton, Trysorydd y Gymdeithas ar 07969 485 490 neu Rhiain Williams, Ysgrifennydd ar 07891 637 188.

Byddwn yn dilyn cyfarwyddiadau y Llywodraeth o ran diogelwch y cyhoedd yn sgil y Coronafeirws ac yn addasu trefniadau os bydd galw arnom i wneud hynny.

**Ysgol Llanfihangel**
*Dathlu Gŵyl Ddewi*
Ar ddydd Llun cyntaf ar ôl hanner



Y plant yn edrych yn arbennig yn eu gwisgoedd i Ddiwrnod y Llyfr.



Llongyfarchiadau i Meia ac Elsa ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Gylch Aberystwyth.



Y plant yn mwynhau y Ffair Wyddoniaeth.

tymor, dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol. Braf oedd gweld y plant wedi gwisgo yn eu gwisgoedd traddodiadol. Cawsom weithgareddau diddorol megis canu, dysgu am Dewi Sant a dathlu ein Cymreictod.

*Gwersi Beicio*
Bu disgyblion Bl 4, 5 a 6 yn dod a'u beiciau i'r ysgol ar gyfer gwersi gyda Graham. Cawsant gyfle i ddysgu rheolau'r ffordd fawr cyn iddynt fynd allan o gwmpas y pentref. Braf oedd gweld i plant yn cael hwyl wrth ddysgu sut i fod yn ofalus. Diolch hefyd i'r hyfforddwyr – bydd beicwyr diogel gyda ni ar yr heolydd!

*Diwrnod y Llyfr*
Mae'r plant wrth eu boddau yn cynllunio digwyddiadau ar gyfer Diwrnod y Llyfr a phenderfynu fel pa gymeriad maent yn mynd i wisgo. Penderfynodd y Cyngor Ysgol ar weithgareddau megis darllen stori, trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn ogystal â gwisgo fel cymeriadau amrywiol. Braf oedd eu clywed yn trafod pwysigrwydd darllen llyfrau Roedd gwisgoedd y plant i gyd yn werth eu gweld a rhieni wedi gwneud ymdrech arbennig. Gwnaeth y plant fwynhau'r diwrnod mas draw!

*Arwyddion*
Roedd cyffro mawr yn yr ysgol yn ddiweddar pan ddaeth cwmni Boomerang ag arwyddion newydd





Arwyddion newydd yr ysgol yn cyrraedd.



Plant a staff yr ysgol ar ddiwrnod olaf yr ysgol, Tymor y Gwanwyn.



Parti Canu Unsain yr ysgol.

i ni. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am dalu amdanynt. Mae'n sicr wedi sionci yr ardal allanol tra hefyd yn cyfoethogi addysg y plant.

*Wythnos Wyddoniaeth*
Cafodd CA2 amser gwych yn y Ffair Wyddoniaeth yn y Brifysgol yn ddiweddar. Cawsant gyfle i ymchwilio ac arbrofi mewn llawer iawn o feysydd gwahanol. Roedd cyfle iddynt ddysgu am agweddau megis cyffuriau, trydan a grymoedd. Mwynhaodd pob un o'r plant – diolch i'r Brifysgol am y cyfle i fynychu.

*Eisteddfod*
Cafodd Meia ac Elsa Evans lwyddiant arbennig yn yr Eisteddfod eleni ac rydym yn hynod falch ohonynt. Cafodd Meia gyntaf am lefaru i flynyddoedd 3 a 4 ac Elsa'n ail am ganu cerdd dant. Llongyfarchiadau anferthol iddynt. Da iawn hefyd i'r parti canu am gystadlu yn y gystadleuaeth Parti Unsain i ysgolion llai na 50 – roedd yn brofiad gwych i'r plant. Diolch yn fawr i Mrs Evans am eu dysgu nhw a hefyd i Mrs Mary Morris am gyfeilio.

*Ysgol yn cau*
Mae wedi bod yn gyfnod anodd iawn yn yr ysgol yn sgil y Feirws Corona. Cawsom gyfle i drafod y mater difrifol yma gyda'n disgyblion ac roeddent yn aeddfed iawn wrth drin a thrafod y pwnc. Diflas iawn oedd clywed ein bod yn gorfod cau am gyfnod amhenodedig yn sgil yr haint. Serch hynny, cariwyd ymlaen hyd ddiwedd yr wythnos gyda'r disgyblion yn dal i fwynhau dod i'r ysgol. Rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu dychwelyd i'r ysgol mor fuan â phosib. Yn y cyfamser, diogelwch ac iechyd pawb yw ein blaenoriaeth felly rhaid cydymffurfio er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r haint er mwyn cadw pawb yn iach. Hoffwn ddiolch i bawb yn rhieni, llywodraethwyr, staff a'r gymuned ehangach am eich cefnogaeth gyson trwy gydol y flwyddyn ac edrychwn ymlaen i'ch diweddaru chi gyda newyddion yr ysgol yn fuan iawn.



Y plant yn mwynhau gwersi beicio.

# Blaenplwyf

Gohebydd: Mary Parry, Troedyfoel (01970 612612)

**Gwellhad Buan**
Pob dymuniad da i Griff Jones, Llainbach sydd yn Ysbyty Tregaron ar hyn o bryd: gobeithio eich bod yn ymgryfhau ac y byddwch adref yn fuan i dreulio'r haf yng ngolwg y môr! Gwella'n foddhaol mae Gareth Emanuel, Y Fronfraith hefyd wedi llawdriniaeth ddiweddar ar ei lygad. Da gweld Iris Jones, Delfryn nôl yn ei chynefin wedi iddi hithau dreulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Bronglais.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cofion at Tommy Williams ac Audrey, Gwynfryn ar farwolaeth ei frawd yn ddiweddar sef Jack Williams, Cefnmeurig, Pontrhydfendigaid yn 91 mlwydd oed. O bump o frodyr anwyd yn ardal Ffair Rhos Tommy yw'r unig un ar ôl bellach. Cynhaliwyd angladd Jack yng Nghapel Carmel ar ddydd Sadwrn 14 Mawrth.

**Llongyfarchiadau**
I Holly Rock, Parc Isaf ar ennill Cadair Eisteddfod Gŵyl Dewi yr Ysgol Gymraeg eleni. Testun ei cherdd fuddugol oedd 'Hunllef'. Gobeithio y cawn gyfle i'w chyhoeddi yn y dyfodol agos.

Llongyfarchiadau hefyd i Ellie Hopson, Brennig, Lôn Rhydygwin ar ei hethol i swydd yn ddiweddar yng Nghaerdydd. Graddiodd Ellie yn ystod Haf 2019 gyda chymwysterau mewn Technoleg a Busnes. Pob dymuniad da a hwyl iti.

**Pen Blwydd Hapus**
I Elfyn Parry, Bwlchdalowen ar gyrraedd yr hanner canfed ddechrau Ebrill.

**Cymdeithas yr Hebog**
Cynhaliwyd ein dathliadau Gŵyl Dewi eleni ar nos Fercher 4 Mawrth yng nghlydwch Gwesty'r Richmond a diolch i Richard a'r teulu am y croeso cynnes. Diolch hefyd i aelodau Merched y Wawr, Llanfarian am ymuno â ni. Yn absenoldeb ein Llywydd oherwydd profedigaeth arweiniwyd y gweithgareddau gan Beti Wyn Emanuel a chydymdeimlodd â Brinley a Valmair Davies o golli eu mab Wyn ddiwedd Chwefror. Gofynnwyd gras gan y Parch Ifan Mason Davies a mwynhawyd yn fawr y pryd blasus.

Ein gŵr gwadd oedd Rheinallt Llwyd a diolch iddo am ei anerchiad diddorol a difyr. Gyda help y taflunydd cawsom gip ar fywydau pump o gyn-drigolion pentref Llangwyryfon lle treuliodd Rheinallt flynyddoedd difyr yn cadw llygad ar y cymeriadau hyn! Pobl y pridd yw eilunod Rheinallt a chawsom gipolwg arnynt – dyma nhw – Bois y Felin a Richard Olifer; Brinley Davies, Morfa Du 'I ewythr Evan'; Jes Danks, y cymeriad amryddawn ymsefydlodd yn ifanc wrth odre'r Mynydd Bach a'r arbenigwr celfyddydol, Peter Lord dreuliodd flynyddoedd yn yr ardal cyn ymsefydlu bellach yng Nghwmrheidol – croesdoriad diddorol ontefe! Mae Rheinallt yn gyfathrebwr naturiol a doniol ac yn berchen ar elfen i'ch hudo am hydoedd! Rhyw gwta hanner awr fydda i meddai wrth gychwyn ond hedfanodd mwy nag awr wrth inni ymgolli yn hanes y cymeriadau uchod. Diolch i Nesta am gofnodi ar gamera – gobeithio y cawn weld rhai o'r lluniau tro nesaf. Bu tipyn o sgwrsio wedi'r wledd ac aethom adref i gyd yn falch o'n treftadaeth a'n diwylliant.

Yn anffodus oherwydd problemau 'iechyd y byd' ni chynhaliwyd ein cyfarfod olaf ar 17 Mawrth. Penderfynwyd anfon siec o £250.00 i sefydliad HAVHAV sef elw yr oedfa Nadoligaidd a gynhaliwyd yn Elim.

# Eisteddfod 2020

**Eisteddfod 2020: Cronfa Ardal Llanfarian a'r Cylch**
Derbyniwyd cynnig ar y cyd gan Alan Lewis a Geoff Davies yng Ngwerthiant Print Rhiannon Roberts, Ardal Llanfarian. Bydd y llun, wedi ei fframio, yn cael ei roi gan y ddau i Ysgol Gynradd Llanfarian. Codwyd swm o £160 i'r gronfa.

# Llanilar

Gohebydd: Rowland Jones, Afallon, Dolfelen (01974 241328); Beti Griffiths, Lleifior, Cwm Aur; Iola Alban.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Roy James, 'Sŵn-y-Plant' a'i deulu yn dilyn marwolaeth ei fam, Mrs. Dilys James, Noddfa, Heol Derw, Aberteifi yn 95 oed ar 26 Chwefror. Byddai Mrs. James yn ymwelydd cyson â Llanilar a chymerai ddiddordeb ym mhopeth oedd yn digwydd a chefnogi ei hwyrion yn eu gwahanol weithgareddau. Roeddent yn meddwl y byd o 'Mam-gu Aberteifi'. Cofiwn amdanynt – Nia, Aled, Lowri a'u teuluoedd a'r gorwyrion bach, Delun, Owain a Hali.

Profodd dipyn o lesgedd yn ystod y blynyddoedd olaf ond bu'r gofal a ddangosodd Roy a'i ddwy chwaer, Angela ac Eirian tuag ati yn destun edmygedd.

'A lle bu hon mae gwell byd'.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs David Davies a'r teulu, Henllys, Talardeg, Llanilar ar farwolaeth eu Nai sef David Wyn Evans, Kingsley, Frodsham, a fu farw yn ddisymwyth yn 56 oed ar ddydd Iau 10 Mawrth.

**Llongyfarchiadau**

Dymunwn yn dda, er ychydig yn hwyr i Alaw Dafydd, Cefn Coch yn ei rôl newydd fel 'Swyddog Datblygu'r Gwyddorau' sy'n gysylltiedig â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n rhannu ei hamser rhwng y swydd hon a gweithio yn Ysbyty Bronglais. Braf cael ei chroesawu'n ôl i'w bro enedigol wedi graddio mewn Biofeddygaeth ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Dymunwn y gorau iddi i'r dyfodol.

**Pwyllgor Datblygu Cymuned Llanilar Clwb 300 Chant**

Mawrth 2020

£20 Trefor Evans, Trefeinan, Llanilar.
£15 Sheila Lloyd, Brynteg, Dolystwyth, Llanilar.
£10 Mrs Jennie Morgan, Brynmad, Llanfarian.
£5 Mr a Mrs Y. Jones, 19 Gwarfelin, Llanilar.
£5 Patric Loxdale, Castle Hill, Llanilar.

Mae gwirfoddolwyr yn gwerthu Ticedi'r Clwb 300 ar hyn o bryd ond oherwydd y Firws Corona nid ydynt yn medru galw ym mhob tŷ o'n cyn aelodau. Os ydych yn dymuno adnewyddu eich aelodaeth ffoniwch 01974241328. Mae croeso hefyd i aelodau newydd ymuno â ni. Mae elw'r Clwb 300 yn mynd tuag at dreuliau Canolfan yr Hen Ysgol ac yn help i gadw costau llogi i lawr.

**Sefydliad y Merched**

Oherwydd y sefyllfa gyda'r Feirws Corona, yr ydym wedi penderfynu gohirio pob cyfarfod o'r Sefydliad am y dyfodol rhagweladwy. Cynhaliwyd cyfarfod yn y prynhawn ar 5 Chwefror gyda Michael Freeman yn siarad am Ffoaduriaid Syriaidd Aberystwyth. Dywedodd sut oedd *Aberaid* wedi cael ei sefydlu gyda grŵp o bedair mam ifanc yn gwerthu gwahanol eitemau ar stondinau ac yn codi arian i anfon tramor yn gymorth i'r ffoaduriaid. Hefyd am y problemau o sefydlu elusen, agor cyfrif banc, trefnu trafnidiaeth a chartrefi i'r ffoaduriaid ar gyrraedd Aberystwyth. Ar hyn o bryd y mae dau deulu yn byw yn Aberystwyth ac mae eu plant yn mynychu ysgolion lleol. Diolchwyd i Mr Freeman gan Carol Evans. Enillwyd y raffl gan Pat KcKnight.




Llongyfarchiadau i Gwenllian Rhys am ennill y gadair yn yr Eisteddfod ysgol eleni.



Plant Dosbarth Gelert yn mwynhau gofalu ar ôl y cywion bach!




Da iawn fechgyn! Perfformiadau gwych yn yr Eisteddfod Offerynnol.

Ar 12 Chwefror, rhoddodd Leslie Evans araith ddoniol am ei gwaith fel Rheolwr Teithiau. Ar ôl cymryd ymddeoliad cynnar, gweithiodd yn annibynnol i wahanol gwmnïau teithio am wyth mlynedd, a gweithiodd hefyd ar Longau Mordaith am ddeg wythnos, gan fwynhau'r gwaith yn fawr iawn. Diolchwyd iddi gan Helen Jones. Enillwyd y raffl gan Carol Evans.

Daeth Dr Ali Wright atom ar 19 Chwefror. Rhoddodd araith ddiddorol ar ddringo '*The Machu Picchu Trail*' ym mis Medi 2018, gyda naw ar hugain o wirfoddolwyr, yn codi arian tuag at Ymchwil Cancr yng Nghymru gyda'i phrif swyddfa yng Nghaerdydd. Rhaid bod pob gwirfoddolwr yn codi £4,000 ac ymarfer i lefel uchel o ffitrwydd. Cerddasant am bedwar diwrnod trwy'r jwngl gyda'r uchelder yn gwneud hyn yn anodd iawn, ond yr oedd cyrraedd y copa yn siwrne gwerth chweil. Codwyd £125,000. at yr achos. Talwyd y diolchiadau gan Jean Evans. Enillwyd y raffl gan Sheila Jarvis. Enillwyr y gystadleuaeth o Bictiwr o Fynydd oedd 1af Pam Jennings, 2il Janet Parry a 3ydd Betty Wakelin.

Ar 26 Chwefror, cynhaliwyd Noson Gymdeithasol pryd y gwelwyd aelodau yn mwynhau paned o de ac ymgom wrth chwarae gemau. Enillwyd y raffl gan Janet Parry.

**Ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Elvira Evans, Ystwyth View, Llanilar sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais.

**Carmel**

*Oedfaon Mis Ebrill*

Mae holl oedfaon mis Ebrill, yn yr ofalaeth ac yn lleol wedi'u canslo oherwydd yr haint ddifaol sydd yn mynd ar led.

*Dydd Gweddi'r Byd*

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn eleni ddydd Gwener 6 Mawrth yng Ngharmel. Roedd nifer dda o chwiorydd a rhai brodyr wedi dod at ei gilydd i gyflwyno'r gwasanaeth oedd wedi'i baratoi gan ferched Zimbabwe ar y thema 'Cod! Cymer dy fatras a Cherdda'. Roedd yr addurniadau pwrpasol a lliwgar ar gyfer y digwyddiad wedi'u paratoi yn hyfryd iawn gan Mrs Marian Jones. Mrs Brenda Parry Owen oedd yn cyfeilio. Gwnaed casgliad o £120.00 i gefnogi gwaith Cristnogol amrywiol. Diolchwn am bob cefnogaeth i'r cyfarfod pwysig hwn.

*Anfon cofion*

Rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau da at Mrs Margaret Davies, Tanyderi sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei llygad ac at Mrs Ruth Morris sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei phen-glin. Rydym yn falch o ddweud bod y ddwy yn gwella'n dda ac wedi elwa ar y triniaethau.

*Te Bara a Chaws Cymorth Cristnogol*

Bu'n rhaid rhoi heibio unrhyw fwriad o gynnal y noson bwysig hon am eleni. Mae hyn yn naturiol yn ofid mawr i bawb. Fodd bynnag, gobeithiwn dderbyn cyfraniadau at waith Cymorth Cristnogol fel arfer. Bydd amlenni ar gael gan Richard Lewis (01974 241622) a Iola Alban (01974 241032). Ffoniwch i holi am



Steff o Cered yn helpu'r Cewri Cymreig i greu rhaglen o ganeuon ar gyfer y disgo.



Llongyfarchiadau i Gwenllian Rhys am ennill y gadair yn yr Eisteddfod ysgol eleni.

amlen ac fe drefnwn i chi dderbyn un ac fe wnawn drefniadau i dderbyn eich cyfraniad. Os byddwch yn dymuno i Rodd Cymorth gael ei hawlio ar eich cyfraniad a wnewch chi lenwi'r manylion ar yr amlen? Os nad ydych chi, yna dychwelwch eich amlen heb y manylion arni. Bydd y casgliad yn agored o 10 Mai hyd 24 Mai. Gobeithiwn yn fawr y bydd ymateb teilwng fel arfer i'r ymdrech hon i helpu pobl sy'n fyr o'n breintiau ni.

**Ysgol Llanilar**

*Cwis Dim Clem*

Aeth Eliana, Iestyn, Steffan a Tudur i Felinfach ar ddiwedd mis Chwefror ar gyfer Cwis Dim Clem. Bu'r tîm yn ateb cwestiynau lu am Gymru. Cafwyd bore llawn hwyl a llwyddodd y tîm i ddod yn ail allan o saith ysgol. Da iawn blantos! Diolch i Rhodri a Steffan o Cered am drefnu.

*Diwrnod Lles*

Bu plant yr ysgol yn mwynhau diwrnod o weithgareddau amrywiol a oedd yn canolbwyntio ar eu lles megis ioga, meddwlgarwch, Swmba a gweithgareddau tawel. Hoffwn ddiolch i Lyndsey Gaunt, sef rhiant yn yr ysgol, a staff yr ysgol am gynorthwyo i helpu cynnal y diwrnod hwylus a phwysig hwn.

*Gŵyl Offerynnol*

Aeth Tudur Smith a Steffan Jones i gynrychioli'r ysgol yn yr Ŵyl Offerynnol yn Felinfach yn ddiweddar. Roedd y ddau yn cystadlu ar yr Unawd Pres i Flwyddyn 6 ac iau. Llongyfarchiadau i Steffan a ddaeth yn gyntaf ac i Tudur am ddod yn drydydd. Dyna ddiwedd ar y daith am eleni gan nad yw Eisteddfod yr Urdd Sir Dinbych yn cael ei chynnal eleni.

*Noson Gawl*

Bu disgyblion yr ysgol yn cynnal adloniant yn Noson Gawl y Cylch Meithrin ar ddechrau mis Mawrth. Diolch i'r Cewri Cymreig a fu'n arwain y noson, i blant y côr, y parti llefaru ac unigolion am gyfrannu i'r noson.

*Eisteddfod Ddwl*

Cafwyd ddiwrnod llawn hwyl a sbri eleni yn ein Heisteddfod Ddwl. Bu pob disgybl yn cystadlu drwy ganu, actio, meimio neu adrodd. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn. Llongyfarchiadau i Gwenllian Rhys am ennill y gadair am y stori orau ac i lys Rheidol am ennill y pwyntiau mwyaf ar ddiwedd y prynhawn.

*Disgo Gŵyl Ddewi*

I orffen wythnos brysur tu hwnt cafwyd disgo Gŵyl Ddewi ar brynhawn dydd Gwener 6 Mawrth. Daeth pawb i'r ysgol yn eu dillad disgo a bu'r Cewri Cymreig yn creu rhaglen o ganeuon gyda Steffan Rees o Cered. Cafwyd brynhawn cyffrous o ddawnsio a bwyta cŵn poeth. Diolch i Steff am ei gymorth.

*Diwrnod y Llyfr*

Daeth y disgyblion â'u hoff lyfrau i mewn i'r ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr eleni. Roedd pob dosbarth yn ffodus i gael ffrind i'r ysgol i ddarllen stori iddynt. Diolch yn fawr i'r aelodau o'r llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol am roi o'u hamser yn ystod y dydd.

*Croesawu myfyrwraig*

Croesawyd Miss Sarah Scollan atom yn ddiweddar. Roedd Sarah yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn gwneud ymarfer dysgu yn nosbarth blwyddyn 5 a 6. Yn anffodus fe ddaeth ei chwrs i ben yn gynnar. Ond hoffwn fel ysgol dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

*Eisteddfod Cylch Aberystwyth*

Cafwyd prynhawn llwyddiannus yn Eisteddfod Cylch Aberystwyth ar brynhawn dydd Iau 12 Mawrth. Hoffwn longyfarch yr unigolion a grwpiau a fu'n cystadlu:
Bryn Williams – Alaw Werin bl6 ac iau – 2ail
Leisa James – Cerdd Dant bl 6 ac iau – 3ydd
Steffan Jones – Llefaru Bl 5 a 6 – 1af / Deuawd Bl 6 ac iau – 1af (gyda'i ffrind Owen Jac Roberts)
Côr yr ysgol – 1af
Parti Llefaru – 1af

Llongyfarchiadau hefyd i'r unigolion a fu'n cystadlu yn y rhagbrofion y diwrnod cynt, rydym yn falch iawn ohonoch i gyd.

*Cywion bach*

Yn ystod wythnos olaf yr ysgol fe ddaeth 10 o wyau cywion bach atom. Fe fu'r disgyblion yn gofalu amdanynt ac fe welon ni'r wyau'n deor a'r cywion bach yn tyfu. Roedd y plant wrth eu bodd ac roedd y cywion bach yn codi'n calonnau yn ystod amser anodd i bawb.
Fel ysgol hoffwn estyn ein dymuniadau da i holl ddarllenwyr y Ddolen. Edrychwn ymlaen at rannu ein newyddion gyda chi eto yn y dyfodol agos.

**Cymdeithas Carmel**

Ar nos Iau 12 Mawrth, pleser dwbl oedd croesawu dau frawd atom, sef Rhydian a Rhodri Davies, sy'n wreiddiol o Gwm Ystwyth. Etifeddodd y ddau ddiddordeb eu tad mewn magu ceffylau, ac erbyn hyn mae Rhydian yn barnu mewn sioeau ledled y wlad a hefyd dramor.


Cyflwynwyd y ddau gan ein llywydd, Meirion Davies, ac yn eu cwmni fe aethon ni ar daith ddifyr iawn i Awstralia, lle roedd Rhydian yn barnu mewn sioe o fri. Roedd yn amlwg fod y siaradwyr wedi mwynhau eu trip, ac fe gawson ninnau lawn cymaint o bleser yn gwrando arnyn nhw, yn cwrdd â'r cymeriadau a'r ceffylau yn y sioe, a hefyd yn edrych ar y golygfeydd. Roedd yn noson gartrefol a hwyliog iawn, ac yn ddiweddglo hyfryd i'n tymor.

**Dyfyniad y mis**

Ceir dyfyniad y mis, y mis yma gan Mr John Gwynn Jones, Cymdeithas y Paith.

'Croeso'r wlad, cinio braf, croeso'r dre, bisged a the.'

# Croesair



**Ar ôl i chi lenwi'r croesair, bydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf, yn eu trefn, yn sillafu pedwar gair sy'n ymwneud â'r Pasg. Anfonwch y geiriau hynny at y.ddolen@gmail.com neu drwy'r post i Gelli Aur, Cwrt y Cadno, Llanilar, SY23 4PS erbyn 15 Ebrill. Mi fydd yr atebion cywir yn mynd i'r het a'r enillydd yn derbyn tocyn llyfr gwerth decpunt.**

**Ar draws**

7. *-- ---- a fu farw wrth gario glo i'r Fflint* (2,4)
8. Un sy'n cynrychioli cwmni, neu'n gweithredu ar ran rhywun arall (6)
9. Ffrwyth y gollen (4)
10. Teg edrych ---- ----. (4,4)
11. *Gwenni aeth i ffair* ------ - ac efallai i Butlin's unwaith! (7)
12. Barack -----, cyn-Arlywydd yr Unol Daleithiau (5)
15. ----- a mesur (5)
17. Digwyddiad (7)
20. Pobl sy'n cystadlu mewn mabolgampau (8)
22. Yr ---- a'r Omega (4)
23. Brathiadau o boen, neu boen dwys e.e. ------ meddwl (6)
24. Arwydd y tu allan i dŷ sy'n dangos bod y perchenogion am symud (2,4)

**I lawr**

1. Llyfr anodd tu hwnt: llyfr anodd -- - --- (2,1,3)
2. Cyfansoddwr *Arafa Don* a anwyd yn Aberystwyth (1,1,6)
3. Dyma lle gwelwch chi'r mochyn. (2,1,4)
4. Mae hon yn dilyn y fellten. (5)
5. Prifddinas Latfia (4)
6. Bwrw glaw yn sobor iawn: bwrw glaw -- ---- (2,4)
13. Twba ydyw. Mae'n bosib ei lyncu! (Anagram) (8)
14. *Ffydd, Gobaith - ------*, canodd Iona ac Andy (1,6)
16. Grŵp yn cynnwys nifer penodol o gantorion neu offerynwyr (6)
18. Allwch chi ddim gyrru i ddau gyfeiriad ar y hyd y stryd hon. (6)
19. *Hei, Mistar Urdd, yn dy goch, gwyn a -----* (5)
21. Glyn ----, tref ym Mlaenau Gwent (4)

**Llongyfarchiadau i'r enillydd sef Iris George, Y Wern, Llanfihangel y Creuddyn.**

**Atebion Croesair Mawrth**

**Ar draws** 7. a Sbeis 8. amrant 9. chwys 10. O Law i Law 11. adennill 12. o bant 15. a hwyr 17. gwresog 20. prifiant 22. Er dy 23. Bosnia 24. Indiad

**I lawr** 1. ysgwyd 2. persondy 3. esbonio 4. thadau 5. arni 6. unsain 13. Ble'r ei di 14. Awstria 16. Hir pob 18. oedran 19. cadach 21. fyny

**Geiriau cudd:** Y pethau bychain

CARPEDI K&M
Ffôn: 01974 251656
Ken: 07970 045129
Meirion: 07811 479791
GWASANAETH GWERTHU A GOSOD

inc
13 Heol y Bont, Aberystwyth
01970 626200
- llyfrau Cymraeg
- cerddoriaeth Gymraeg
- cardiau Cymraeg
- cylchgronau Cymraeg
- crysau-t Cymraeg
- papurau bro
Croesewir archebion gan unigolion ac ysgolion

ROBERT RATTRAY
CIGYDD TEULU
8 Y Ffynnon Haearn
Aberystwyth
*Cig o ffermydd lleol.*
*Galwch am dyfynbris i'r rhewgell.*
Ffôn: 01970 615353

Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

DYLAN TANDY
01974 272 453
07890 946 555
MUSTANG GUTTER SYSTEM
dylantandy310@hotmail.co.uk
GWTERI ALWMINIWM DI-DOR
SAER COED . GWAITH TO . ADEILADWR . ASIEDYDD

BWYTY y ffos RESTAURANT
yffos.wales
01970 617 941

Trydan WILL DAVEY Electrical & AV
Certified Electrical Installation / Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Audio, Visual & Data / Sain, Gweledol & Data
CCTV / CCTV
Inspection & Testing / Arolygu & Phrofi
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey